

Amlieithrwydd ar gyfer bywyd beunyddiol plant

Llawlyfr ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant bach iawn

Multilingualism for children's everyday life

A guide for practitioners working with very young children



Cyflwyniad	3
Adran 1 : Oedolion fel modelau rôl ieithyddol	9
Adran 2 : Cydweithio â rhieni ar faterion ieithyddol	15
Adran 3 : Sefyllfaoedd bob dydd a'r amgylchedd ffisegol	19
Adran 4 : Awgrymiadau ar gyfer arsylwi ar iaith plant a'i chofnodi	23
Adran 5 : Gweithio gyda themâu, a phwyslais ar faterion ieithyddol	29
Adran 6 : Sut i ysgogi defnydd plant o iaith	35
Adran 7: Amser chwarae i ysgogi iaith	43
Adran 8: Myfyrion	49
Adran 9: Enghreifftiau o ymarferion a gweithgareddau	51
Cyfeiriadau	89
Awgrymiadau ar gyfer darllen pellach	90
Gwefannau a dolenni defnyddiol	91

Introduction	3
Section 1: Adults as linguistic role models	9
Section 2: Collaboration with parents on linguistic matter	15
Section 3: Everyday situations and the physical environment	19
Section 4: Suggestions for observing and recording children's language	23
Section 5: Working with themes, and emphasis on linguistic factors	29
Section 6: How to stimulate children's language use	35
Section 7: Playtime to stimulate language	43
Section 8: Reflection.....	49
Section 9: Examples of exercises and activities	51
References	89
Suggestions for further reading	90
Websites and useful links:	91



Authors: Johanna Sallinen and Veronica Hertzberg with contribution from all four regions

Graphic design: Lena Malm

Printed at: Unigrafia, Helsinki, 2011

Cyflwyniad

Bwriedir y canllaw hwn sy'n cynnwys gweithgareddau datblygu iaith dwyieithog ar gyfer lleoliadau cyn ysgol; ymarferwyr cyn ysgol mewn meithrinfeydd, grwpiau chwarae, canolfannau gofal dydd a gweithwyr proffesiynol cyn ysgol eraill sy'n ymdrin â dwyieithrwydd a phlant ifanc 0 – 4 oed. Mae'r canllaw hwn yn darparu syniadau i greu amgylchedd ieithyddol cefnogol a chyfoethog mewn gofal dydd i blant. Gobeithiwn y bydd yn eich galluogi i wneud gwaith iaith yn rhan annatod o weithgareddau cyn ysgol, ac y bydd o werth yng ngweithgareddau'r lleoliad cyn ysgol o ddydd i ddydd.

Teimlo'n ddiogel ac ymdeimlad o ymddiriedaeth

Yr egwyddor sylfaenol ar gyfer pob gweithgarwch gofal dydd yw bod yn rhaid i'r plant deimlo eu bod yn ddiogel, rhaid iddynt deimlo'n rhan o'r grŵp a thrwy hynny deimlo'n hapus ac yn dda. Rhaid i blant deimlo'n ddiogel er mwyn datblygu a chael budd o'r profiadau a gynigir iddynt. Mae hyn yn wir am gefnogi pob math o ddatblygiad, gan gynnwys caffael iaith. Yn ogystal mae angen i blant deimlo bod croeso iddynt a theimlo bod ganddynt le pendant o fewn y grŵp. Mae hefyd yn bwysig cynnal cydberthynas o gydymddiriedaeth a pharch rhwng rhieni'r plentyn a'r staff gofal dydd.

Os cyflëir y neges i'r plant, drwy osgo'r corff ac ar lafar, eu bod yn cael eu derbyn fel unigolion, os yw plant yn cael y teimlad eu bod yn gwneud yn dda ac yn cael eu gwerthfawrogi, yna gallant ddatblygu hunanddelwedd gadarnhaol a theimlo'n hyderus ac yn ddiogel. Mae angen diogelwch ar blant o bob oedran, ond mae teimlo'n ddiogel yn arbennig o bwysig i blant bychain iawn, yn enwedig pan fyddant yn dechrau mewn lleoliad cyn ysgol.

Introduction

This guide containing bilingual language development activities is intended for the a pre-school setting; pre-school practitioners in nurseries, playgroups, day care centers and other preschool professionals dealing with bilingualism and young children from 0 – 4 years. This guide provides ideas to create a supportive and rich language environment in day care for children. We hope that it will enable you to make language work as an integral part of pre-school activities, and will be of value in the day to day activities of the pre-school.

Feel safe and trusted

The basic principle for all day-care activities is that the children feel secure, that they feel a part of the group and therefore feel happy and well. Children must feel secure in order to develop and benefit from the experiences they are offered. This is true in supporting development as a whole, including language acquisition. Children also need to feel welcome and to feel that they have a clear place in the group. It is also important to maintain a relationship of mutual trust and respect between a child's parents and day care staff.

If the message is communicated to children both via body language and verbally that they are accepted as individuals, if they are shown that they are doing well and are appreciated, they can develop a positive self-image and can be confident and secure. Children of all ages need security, but a feeling of security is particularly important for very small children, especially when they start in a pre-school setting.

Plant amlieithog

Mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn sgiliau gwerthfawr sy'n cyfoethogi unigolion a'r gymdeithas gyfan. Mae llawer o blant yn Ewrop heddiw yn byw mewn amgylchedd amlieithog. Un grŵp o'r fath yw plant sy'n cael eu magu'n ddwyieithog, gyda'r fam a'r tad yn siarad ieithoedd gwahanol â hwy (er enghraifft Cymraeg a Saesneg). Grŵp arall yw plant y mae eu mam a'u tad ill dau yn siarad Cymraeg â hwy a'u bod yn dysgu siarad Saesneg y tu allan i'r cartref. Trydedd enghraifft yw plant y mae eu mam a'u tad yn siarad Saesneg â hwy, a'u bod yn dysgu siarad Cymraeg y tu allan i'r cartref. Yn olaf, ceir plant sy'n dysgu iaith dramor arall yn y cartref a'u bod yn dysgu Cymraeg neu Saesneg yn y lleoliad cyn ysgol neu'r ysgol gynradd.

Er mwyn cefnogi dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, mae angen y sgiliau a'r arbenigedd priodol ar ymarferwyr cyn ysgol i greu gweithgareddau ac amgylchedd sy'n hybu datblygiad ieithyddol y plentyn.

Dengys ymchwil ei bod yn beth da i siarad yr iaith leiafrifol gyda phlant ifanc a defnyddio'r iaith honno'n gyson. Mae rhyngweithio ieithyddol gweithredol ymhlith plant, yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng plant ac oedolion, yn un o ragofynion sicrhau'r datblygiad ieithyddol gorau posibl. Os ceir amgylchedd cyfoethog ac ysgogol ar gyfer yr iaith leiafrifol, ceir sail i ddysgu'r iaith leiafrifol hefyd. Mae ymagwedd gadarnhaol ymhlith oedolion tuag at y ddwy iaith yn cynorthwyo datblygiad amlieithog y plentyn.



Multilingual children

Bilingualism and multilingualism are valuable skills that enrich individuals and society as a whole. Many children in Europe today live in a multilingual environment. One such group is children who are raised bilingually, with the mother and father speaking different languages with them (for example Welsh and

English). Another group is children whose mother and father both speak Welsh with them and they learn to speak English outside the home. A third example is children whose mother and father speak English with them, yet learn Welsh outside the home. Finally, there are children who learn another foreign language at home and in the pre-school setting or at primary school they learn Welsh and English.

In order to support bilingualism and multilingualism, pre-school practitioners need the correct skills and expertise to create activities and an environment that promotes the child's language development.

Research shows that it is good to speak and consistently use the minority language with young

children. An active language interaction amongst children, in addition to the interaction between children and adults is a prerequisite for optimal language development. If there is a rich and stimulating environment for the minority language, there is a basis to learn the majority language as well. A positive attitude amongst adults towards both languages assists the multilingual development of the child.

Y strwythur a sut i integreiddio'r syniadau fel rhan o'r gofal dydd

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys naw adran. Mae'r wyth adran gyntaf yn dilyn yr un strwythur; sef cefndir damcaniaethol, awgrymiadau a chynghor ar gyfer eich gwaith bob dydd, materion ar gyfer myfyrio a datblygu, awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau, a darllen pellach. Yn adran 9 cewch ymarferion a gweithgareddau sy'n cyfoethogi iaith. Mae'r adrannau'n cefnogi ac yn ategu ei gilydd, gan ffurfio rhaglen gyflawn. Mae'r deunyddiau yn yr adrannau hyn yn amlygu'r pethau i'w hystyried o ran datblygiad ieithyddol plentyn o ddydd i ddydd, yn ogystal â chynghor ar sut i gynllunio gweithgareddau sy'n cyfoethogi iaith plant.

Y gobaith yw y bydd adrannau'r canllaw yn rhoi atebion i gwestiynau megis: Sut i fod yn fodel rôl ieithyddol i'r plant? Sut i gydweithio â rhieni o ran datblygiad ieithyddol? Ym mha ffyrdd y gallwch arsylwi ar iaith y plant a'u datblygiad ieithyddol? Ym mha ffyrdd y gallwch greu amgylchedd ieithyddol cyfoethog ar gyfer plant? Pa fath o weithgareddau ieithyddol sydd ar gael ar gyfer plant, a sut y dylid trefnu'r gweithgareddau hyn?

Y syniad yw eich bod yn defnyddio'r canllaw i hybu a datblygu ymwybyddiaeth ieithyddol. Awgrymwn fod eich lleoliad cyn ysgol yn gweithio gyda'r canllaw hwn, er enghraifft yn ystod blwyddyn ysgol, a'ch bod yn gweithio drwy un adran ar y tro. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer darllen pellach. Gallech drefnu cyfarfod i gyflwyno pob adran. Dyma amserlen bosibl:

- Dylai fod gan bob ymarferwr y cyfle i ddarllen yr adran dan sylw cyn i chi ei thrafod gyda'ch gilydd.
- Dewiswch nifer o'r awgrymiadau a'r cynghor a nodwyd yn y canllaw ar gyfer eich lleoliad cyn ysgol, yn cynnwys y gweithgareddau ar gyfer y plant.
- Trafodwch y "Materion ar gyfer myfyrio a datblygu" a gyflwynir yn yr adran a sut y gallwch eu cymhwyso i'ch lleoliad cyn ysgol.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol ac yn rhoi anogaeth i chi. Pob lwc gyda'ch gwaith.

The structure and how to integrate the ideas into the day care

This guide consists of 9 sections. The first eight follow the same structure; a theoretical background, suggestions and tips for your daily work, issues for reflection and development, suggestions for activities, and further reading. In section 9 you will find language enriching exercises and activities. The sections support and complement each other, forming a complete programme. The materials in these sections highlight things to look out for in a child's language development on a daily basis, as well as tips on how to design linguistically enriching activities for the children.

The sections in the guide will hopefully provide answers to questions such as: How to be a linguistic role model for the children? How to collaborate with parents on linguistic development? How can you observe the children's language and development? How can you create a rich language environment for children? What kind of language activities are there for children and how to organize these activities?

The idea is that you use the guide to promote and develop linguistic awareness. We suggest that your pre-school setting works with this guide, for example during a school year, and go through one section at a time. Further reading suggestions are also contained within the guide.

You could organize a meeting to introduce each section. Here is a possible timetable:

- Each practitioner should have the opportunity to read through the section before you discuss it together.
- Select a number of suggestions and tips included in the guide for your pre-school setting, including the activities for the children.
- Discuss the "Issues for reflection and development" presented in the section and how you could apply them to your pre-school setting.

We hope you will find this guide useful and encouraging. Good luck with your work

Beth yw'r prosiect MELT a pha sefydliadau sy'n cymryd rhan?

Mae'r Prosiect **Trosglwyddiad iaith Gynnar Amlieithog (Multilingual Early Language Transmission – MELT)** yn bartneriaeth rhwng pedair cymuned ieithyddol - Llydaweg yn Llydaw, yr iaith Ffrisieg yn Fryslân, y gymuned iaith Swedeg yn y Ffindir, a'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Cyllidir y Prosiect gan y Comisiwn Ewropeaidd, a bydd yn rhedeg rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2011.

Rhai o'r amcanion oedd nodi arfer gorau o ran caffael iaith a methodoleg trochi iaith a gwella sgiliau ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Cyhoeddir y gwaith yn y canllaw ymarferol hwn.

Mae **Folkhälsan** yn sefydliad anllwyddraethol sy'n gweithredu drwy gyfrwng yr iaith Swedeg yn y sector lles cymdeithasol a gofal iechyd yn y Ffindir. Mae'n cyflawni ymchwil wyddonol ac yn darparu gwasanaethau lles cymdeithasol a gofal iechyd yn ogystal â gwybodaeth a chyngor er mwyn hybu iechyd ac ansawdd bywyd. Ers 1999 mae Folkhälsan wedi gweithio ar gefnogi caffael iaith ar gyfer plant 0 – 15 oed a hybu addysg drochi. www.folkhalsan.fi/sprak

Mae gan y **Fryske Akademy**, a gynrychiolir gan **Ganolfan Ymchwil Ewropeaidd Mercator ar Amlieithrwydd a Dysgu iaith**, draddodiad hir ym maes addysg amlieithog yn Fryslân, yr Iseldiroedd. Mae gan Ganolfan Ymchwil Mercator, a sefydlwyd yn 1987 gan y Comisiwn Ewropeaidd, gysylltiadau rhyngwladol cryf drwy ei gweithgareddau a'i phrosiectau rhyngwladol. O fewn prosiect MELT, mae Canolfan Ymchwil Mercator yn cydweithio â'r **Sintrum Frysktalige Berne-opfang (SFBO)**, sef y sefydliad ar gyfer y ddarpariaeth cyn ysgol cyfrwng Ffrisieg a dwyieithog yn Fryslân. www.fryske-akademy.nl a www.mercator-research.eu.

Mae **Divskouarn** yn hyrwyddo addysg cyn ysgol drwy gyfrwng y Llydaweg. Dechreuodd gwaith Divskouarn yn 2005 gan weithio gyda nifer fach o ganolfannau gofal dydd yng ngorllewin Llydaw. Mae Divskouarn bellach yn gweithio gyda gwarchodwyr plant a theuluoedd hefyd, gan eu helpu i ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud â'r Llydaweg (cyflwyno'r iaith i ddechrau, dwyieithrwydd, addysg drochi).

What is the MELT project and who are the organisations that are participating?

The **Multilingual Early Language Transmission (MELT)** Project is a partnership between four language communities – Breton in Brittany, the Frisian language in Fryslân, Swedish in Finland, and the Welsh language in Wales. The project is funded by the European Commission, and will run between November 2009 and October 2011.

Some of the aims were to identify best practice in language acquisition and immersion methodology and to increase the skills of early years practitioners. The work is published in this practical guide.

Folkhälsan is a Swedish-speaking NGO (non-governmental organization) in the social welfare and health care sector in Finland. It carries out scientific research and provides social welfare and health care services as well as information and counseling in order to promote health and quality of life. Since 1999 Folkhälsan has worked on supporting language acquisition for children aged 0 – 15 and promoting immersion education. www.folkhalsan.fi/sprak

Fryske Akademy, represented by the **Mercator European Research Centre on Multilingualism and Language Learning**, has a long tradition in the field of multilingual education in Fryslân, the Netherlands. The Mercator Research Centre, established in 1987 by the European Commission, has strong international contacts through its activities and international projects. Within the MELT project, the Mercator Research Centre co-operates with the **Sintrum Frysktalige Berne-opfang (SFBO)**, the organisation for Frisian and bilingual medium pre-school provisions in Fryslân. www.fryske-akademy.nl and www.mercator-research.eu.

Divskouarn promotes pre-school education through the medium of Breton language. Divskouarn's work began in 2005 working with a few day care centers in western Brittany. Divskouarn is now working with child minders and families as well, helping them to develop projects around the Breton language (initiation, bilingualism, immersion).

Y Conseil Régional de Bretagne yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am bolisiau cyhoeddus yn rhanbarth Llydaw yng ngorllewin Ffrainc. Yn 2007, penderfynodd y Conseil Régional de Bretagne sefydlu'r polisi ieithyddol cyntaf ar gyfer cefnogi'r Llydaweg.

Mae **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** yn gorff statudol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'i sefydlwyd yn Rhagfyr 1993, fel rhan o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Ei nod yw gweithio er lles a dyfodol y Gymraeg.

Sefydliad gwirfoddol yw **Mudiad Meithrin**. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Gymraeg yn y sector gwirfoddol. Nod Cylchoedd Ti a Fi yw cynnig y cyfle i rieni a gofalwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch cyfrwng Gymraeg anffurfiol. Ceir rhwydwaith o dros 1,000 o grwpiau Meithrin a Ti a Fi ledled Cymru.

Mae'r **Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD)** yn rhwydwaith pan-Ewropeaidd sy'n cwmparu ieithoedd cyfansoddiadol, ieithoedd rhanbarthol ac ieithoedd gwladwriaethau llai o faint i hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol yng nghyd-destun Ewrop amlieithog. Mae tua 50 miliwn o ddinasyddion yr UE, sef 10% o boblogaeth yr UE, yn siarad iaith ranbarthol neu iaith leiafrifol.

The Conseil Régional de Bretagne is the public body in charge of public policies in the region of Brittany in the west of France. In 2007, the Conseil Régional de Bretagne decided to set up the first linguistic policy for supporting the Breton language.

The Welsh Language Board is a statutory body funded by the Welsh Assembly Government. It was established in December 1993 as part of the Welsh Language Act 1993. Its main function is to promote and facilitate the use of the Welsh language. Its aim is to work for the welfare and future of the Welsh language.

Mudiad Meithrin is a voluntary organisation. It aims to give every young child in Wales the opportunity to benefit from early years services and experiences through the medium of Welsh. It is the main provider of Welsh medium early years care and education in the voluntary sector. The aim of the 'Cylch Ti a Fi' (parent and toddler group) is to offer parents and carers an opportunity to enjoy playing with their children and socialise in an informal Welsh atmosphere. There is a network of over 1,000 Meithrin and Ti a Fi groups across Wales.

The Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD) is a pan-European network which encompasses constitutional, regional and smaller-state languages to promote linguistic diversity in the context of a multilingual Europe. Some 50 million EU citizens, 10% of the EU population speaks a regional or minority language.

Adran 1 : Oedolion fel modelau rôl ieithyddol

Yr egwyddor sylfaenol ar gyfer pob gweithgarwch cyn ysgol yw bod yn rhaid i'r plant deimlo eu bod yn ddiogel, rhaid iddynt deimlo'n rhan o'r grŵp a thrwy hynny deimlo'n hapus ac yn dda. Dyna'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer y gwaith a ddisgrifir yma hefyd. Rhaid i blant deimlo'n ddiogel er mwyn gallu cael budd o'u profiadau a datblygu. Mae hyn yn wir am bob math o ddatblygiad, gan gynnwys caffael iaith.

Er mwyn hybu dysgu iaith mewn lleoliadau cyn ysgol, mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad ieithyddol. Chi a'ch cydweithwyr yw'r ffigyrau pwysicaf o ran hyn. Chi yw'r rhai sy'n cydweithio i greu'r gweithgareddau a'r amgylchedd yn y lleoliadau cyn ysgol.

Iaith yw'r offeryn mwyaf hanfodol i blant drwy gydol eu hoes. Mae plant yn dysgu'r ieithoedd y maent yn teimlo y bydd eu hangen arnynt, oherwydd yn naturiol maent am gyfathrebu â'r plant a'r oedolion maent yn ymgysylltu â hwy o ddydd i ddydd. Er mwyn dysgu iaith, mae'n rhaid caniatáu i blant wrando ar eraill yn defnyddio'r iaith a'i chynhyrchu eu hunain. Wrth weithio mewn lleoliad cyn ysgol, rydych yn fodel ieithyddol pwysig i'r plant, felly mae gennych rôl allweddol i'w chwarae. Mae ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn arfer ieithyddol ardderchog, gan fod angen i blant eu caffael er mwyn eu gwneud yn rhan o'u hiaith eu hunain. Fel oedolyn, chi yw'r un sy'n gyfrifol am annog y plentyn i siarad.



Section 1: Adults as linguistic role models

The basic principles for all pre-school activities are that the children must feel secure, that they must feel a part of the group and therefore feel happy and well. These are the basic principles behind the work described here as well. Children must feel secure in order to be able to benefit from their experiences and develop. This is true for all sorts of development, including language acquisition.

In order to promote language learning at a pre-school, practitioners need to be aware of the factors that influence language development. You and your colleagues are the most important figures here. You are the ones who work together to create the activities and environment in the pre-school settings.

Language is the most critical tool for children throughout their lives. Children learn the languages they feel they require, because naturally they want to communicate with children and adults they engage with on a daily basis. To learn a language, children must be allowed to listen to others using the language and to produce it themselves. While working at a pre-school setting, you are an important

linguistic model for the children, and therefore have a critical role to play. Repeating words and phrases is an excellent habit, as children need to acquire them in order to make them part of their own language. As an adult, you are the one who is responsible for encouraging the child to speak.

Mae'n bosibl mai chi yw un o'r oedolion prin sy'n siarad yr iaith leiafrifol gyda'r plentyn. Mae rhai plant yn siarad iaith arall yn y cartref, a dim ond yn y lleoliad cyn ysgol y byddant yn clywed yr iaith leiafrifol. Am y rheswm hwn, mae sut rydych yn cyfathrebu â'r plant yn bwysig iawn. Mae plant yn dysgu'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir gennych. Cofiwch mai chi yw'r model ieithyddol i'r plant, hyd yn oed pan fyddwch yn siarad â'r oedolion eraill yn y lleoliad gofal dydd. Er mwyn cefnogi eich gwaith a gwaith eich tîm cyfan, gallech lawrlwytho'r rhestrau gwirio defnyddiol ar gyfer y rhan fwyaf o adrannau'r canllaw ar ein gwefan yn eich ieithoedd eich hunain (www.meltproject.eu).

Mae angen ymwybyddiaeth ieithyddol ar bob oedolyn sydd mewn cyswllt rheolaidd â phlant dwyieithog ac amlieithog. Os oes oedolion sy'n siarad ieithoedd gwahanol yn y lleoliad cyn ysgol, mae'n well cadw at yr egwyddor 'un oedolyn, un iaith'. Mae hyn yn cefnogi datblygiad ieithyddol y plant ac yn ei wneud yn haws iddynt wahaniaethu rhwng ieithoedd. Mae hefyd yn cynyddu cymhelliant y plant i ddysgu iaith leiafrifol y lleoliad cyn ysgol.

Os mai prin yw sgiliau rhai o'r oedolion yn y lleoliad cyn ysgol yn yr iaith leiafrifol, gallant ei defnyddio er mwyn pwysleisio gwaith eu cydweithwyr. Os felly, rhaid i'r plant wybod nad yw'r oedolion hyn yn siaradwyr rhugl ond eu bod yn defnyddio'r iaith gan eu bod yn mwynhau ei siarad, a'u bod o'r farn ei bod yn beth da i'r plentyn.

You may be one of only a few adults who speaks the minority language with a child. Some children speak another language at home and only hear the minority language at the pre-school setting. For this reason, how you speak and communicate with the children is very important. Children learn the words and expressions you use. Remember that you are a linguistic model for the children, even when you speak with the other adults in the day care. In order to support your work and your whole team, you could download the useful check lists for the majority of the guide's sections on our website in your own languages

(www.meltproject.eu).



Linguistic awareness is required of all adults who are in regular contact with bilingual and multilingual children. If there are adults who speak different languages at the pre-school setting, it is advisable to stick to the 'one adult, one language' principle. This supports the children's linguistic development and makes it easier for them to distinguish between languages. It also increases the children's motivation to learn the minority language of the pre-school setting.

If some of the adults in the pre-school setting only have limited skills in the minority language, they can use it in order to emphasize their colleagues' work. If they do so, children must know that these adults are not fluent speakers but that they are using it because they enjoy speaking the language and believe it to be a good thing for the child.

Awgrymiadau a chyngor:

- Byddwch yn gyson. Dylech bob amser ddefnyddio'r iaith darged gyda'r plant. Nodwch enwau gwrthrychau sy'n agos i'r plentyn, gan ailadrodd yr enwau. Disgrifiwch ac eglurwch yr hyn rydych yn ei wneud, a'r gwrthrychau rydych yn dod ar eu traws.
- Siaradwch â phob plentyn bob dydd. Ceir rhai plant nad ydynt yn gallu siarad yr iaith darged yn ddigon da eto er mwyn gallu mynegi eu hunain, a phlant sy'n swil yn naturiol ac nad ydynt yn siarad yn agored. Treuliwch fwy o amser yn siarad â'r plant sy'n siarad lleiaf.
- Siaradwch â'r plant gan ddefnyddio brawddegau llawn. Talwch sylw at eich dewis o eiriau wrth siarad, tra'n sicrhau eich bod yn defnyddio iaith fywiog. Dylech annog y plant i ymateb mewn brawddegau llawn.
- Gweithredwch fel 'adlais' y plentyn. Cwblhewch ac ailadroddwch yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud yn yr iaith darged – fel y byddai wedi'i ddweud pe byddai'n gallu – ond heb ei gywiro.
- Byddwch yn wrandawr gweithredol. Defnyddiwch iaith eich corff i ddangos bod gennych amser i wrando a bod gennych ddiddordeb. Safwch i fyny, gwnewch gyswllt llygad â'r plentyn, ewch draw ato ac eisteddwch yn eich cwrcwd yn agos i'r plentyn.
- Os yw plentyn nad yw'n gallu siarad yr iaith darged eto yn ymuno â'ch lleoliad cyn ysgol, gwnewch ymdrech i wrando ar anghenion a dymuniadau'r plentyn, defnyddiwch ystumiau dwylo a mynegiant wyneb er mwyn iddo ddeall yn well, a dangoswch yr hyn a ddywedir gennych.
- Ar gyfer yr adran hon gallech ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau: ar gyfer plant 1 – 2 oed "Rhigyau, hwiangerddi a chaneuon" (Ymwbyddiaeth iaith) a'r "Bag dirgel" (Enwi); ar gyfer plant 3 – 4 oed "Rhigyau, hwiangerddi a chaneuon" (Ymwbyddiaeth iaith) a "Gêm Bîp" (Enwi).

Suggestions and tips:

- Be consistent. Always use the target language with the children. Identify the names of objects near the child, and repeat them. Describe and explain what you are doing, and the objects you encounter.
- Speak to each child every day. Some children can't yet speak the target language well enough to express themselves and some are naturally shy and do not speak up. Spend more time speaking to the ones who talk the least.
- Speak to the children using complete sentences. Pay attention to your choice of words when you are speaking, whilst making sure you are using vivid language. Encourage the children to respond in complete sentences.
- Act as the child's 'echo'. Complete and repeat in the target language what the child says – as he/she would have said if he/she could – but without correcting.
- Be an active listener. Use your body language to signal that you have time to listen and are interested. You may stand up, make eye contact with the child, go over to the child and squat down next to the child.
- If a child who can't yet speak the target language joins your pre-school setting, try to listen to the child's needs and desires, use hand gestures and facial expressions to increase comprehension, demonstrate what you are saying.
- For this section you could use the exercise and activity cards: for children 1 – 2 years "Verses, nursery rhymes and songs" (Language awareness) and the "Secret bag" (Naming); for children 3 – 4 years "Verses, nursery rhymes and songs" (Language awareness) and "Beep game" (Naming).

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

- Myfyriwch ar bwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch iaith a dulliau cyfathrebu.
- Trafodwch bwysigrwydd defnyddio brawddegau cyfan mewn un iaith yn hytrach na chymysgedd o ieithoedd.
- Mewn lleoliadau lle mae oedolion sy'n dysgu'r iaith eu hunain, gallech drafod sut i'w cynnwys wrth ddefnyddio'r iaith darged. Gallwch roi gweithgaredd iddynt ganolbwyntio arno gyda phlant dros gyfnod o amser. Yn ogystal â datblygu gwybodaeth y plant am gystrawen brawddegau, bydd y dysgwyr hefyd yn magu hyder wrth ddefnyddio'r cystrawennau eu hunain.
- Trafodwch sut i addasu eich iaith gyda phob plentyn yn unol â cham datblygu ieithyddol y plentyn. Meddyliwch am sut y gallwch addasu'r ymatebion yn yr iaith darged.
- Trafodwch arwyddocâd mynegiant wyneb, ystumiau llaw, iaith y corff a dulliau di-eiriau eraill o gyfathrebu â phlant. Os cewch anhawster, gall fod yn ddefnyddiol arsylwi ar ymarferwyr eraill yn eu lleoliadau er mwyn magu mwya o hyder.
- Myfyriwch ar sut y gall rhyngweithio geiriol rhwng oedolion yn y lleoliad ddylanwadu ar y graddau y mae'r plant yn caffael yr iaith.
- Myfyriwch ar rôl lleoliadau cyn ysgol yn y daith tuag at fywyd ysgol, gan ganolbwyntio ar yr iaith darged. Er mwyn cefnogi eich tîm i wneud hyn, gallech lawrlwytho rhestrau gwirio penodol a gynlluniwyd gan bartneriaid MELT i weithio ar agweddau amrywiol ar y canllaw hwn: www.meltproject.eu

Issues for reflection and development:

- Reflect on the importance of being aware of your language and methods for communication.
- Discuss the importance of using complete sentences in one language instead of a mix of languages.
- In settings where there are adults who are learners, you could discuss how to involve them in using the target language. You could give them an activity to concentrate on with children over a period of time. This would not only develop the children's knowledge of sentence patterns but the learners will also gain confidence in using the patterns themselves.
- Discuss how to adapt your language with each child according to the child's stage of language development. Think about how you can adapt the responses in the target language.
- Discuss the significance of facial expressions, hand gestures, body language and other non-verbal communication with children. If you find it difficult, it might be useful to observe other practitioners in their settings to gain more confidence.
- Reflect on how verbal interactions between adults in the setting might influence the children's acquisition of the language.
- Reflect on the role of pre-school settings in the journey towards school life, focusing on the target language. In order to support your team in this, you could download specific check lists designed by MELT partners to work on various aspects of this guide: www.meltproject.eu.

Ar gyfer lleoliadau lle ceir babanod sy'n iau na blwydd oed

- Eglurwch a siaradwch am yr hyn rydych yn ei wneud wrth ofalu am y baban, e.e. wrth newid cewyn baban.
- Byddwch yn ymwybodol o'r hyn y mae'r plentyn yn sylwi arno neu'n edrych ato a siaradwch am hynny - hynny yw, rhannwch ddiddordeb y plentyn, e.e. "Ie, dyna'r golau lan fanna" neu "Dyna oedd sŵn!" "Llyfr Catrin syrthiodd i'r llawr."
- Dyfeisiwch ganeuon neu rigymau bach am rannau corff y plentyn ac unrhyw wrthrychau eraill sy'n agos iddo.
- Chwaraewch 'pi-po' a 'clap, clap, un, dau tri' a gemau eraill sy'n cynnwys symud dwylo.
- Edrychwch ar lyfrau gyda'r plentyn. Rhewch enwau'r gwrthrychau yn y lluniau a siaradwch amdanynt. Hefyd gadewch i'r plentyn edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun. Gadewch lyfrau o fewn cyrraedd y plentyn, e.e. ymhlith y tegau eraill. Mae llyfrau gwydn ar gael gyda darluniadau clir y gall babanod edrych arnynt a chnoi arnynt.
- Byddwch yn gyson wrth ddefnyddio'r iaith darged wrth siarad â'r baban. Peidiwch â bod ofn na fydd y baban yn gallu eich deall, maent wedi cyrraedd oedran lle mae'n bosibl eu bod yn deall, er nad ydynt yn ddigon hen i fynegi eu hunain mewn geiriau.



Suggestions and tips for settings with babies

- Explain and talk about what you are doing when taking care of the baby e.g. when you change the baby's nappy.
- Be aware and talk about what the child is noticing or looking at – in other words, share the child's interest e.g. "Yes, that's the light up there." or "That was a loud noise!" "That was Catrin's book that fell onto the floor."
- Make up little songs and rhymes about the parts of the child's body and other objects near the child.
- Play 'Peek-a-boo' and 'Pat-a-Cake', in addition to other games with hand movements.
- Look at books with the child. Give the names of the objects in the pictures, and talk about them. Also, allow the child to look at books on his/her own. Leave books where the child can reach them e.g. among the other toys. There are durable books with clear, high-contrast illustrations that babies can look at and chew on.
- Be consistent in using the target language when you speak to the baby. Don't be afraid not to be understood by the babies, they are at the age where they may understand, even though they are not at the age of expressing themselves in words.

Adran 2 : Cydweithio â rhieni ar faterion ieithyddol

Dylech gofio bod cydweithio â rhieni yn bwysig iawn o ran datblygiad ieithyddol plentyn: mae plant yn dysgu eu hiaith/ieithoedd gan eu rhieni, a'r gweithwyr gofal plant proffesiynol sy'n cefnogi ac yn ysgogi datblygiad ieithyddol.

Mae'n bwysig bod y staff a'r rhieni yn cydweithio. Gall staff gael gwybod mwy am y plentyn gan y rhieni a sicrhau gwell dealltwriaeth o safbwyntiau'r rhieni. Er mwyn gwneud i hyn weithio, mae'n bwysig y caiff rhieni gyfle i arsylwi ar y gweithgareddau yn y lleoliad cyn ysgol. Siaradwch â rhieni'r plant am yr hyn rydych yn ei wneud, a sut y gall y lleoliad cyn ysgol a chartref y plentyn gefnogi ac ategu ei gilydd. Er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiad hwn rhwng staff a rhieni, mae'n bosibl yr hoffech ofyn i'r rhieni gwblhau'r holiadur sydd wedi'i gynnwys yn y canllaw hwn.

Mae angen rhoi sicrwydd i rieni o ran eu dewis i fagu eu plant yn ddwyieithog, ac mae angen iddynt deimlo eu bod yn rhan o'r broses. Mae angen i rieni deimlo eu bod yn rhan o gamau dysgu iaith a datblygiad ieithyddol eu plentyn. Mae hefyd yn bwysig, o ran y broses caffael iaith, i rieni fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliad cyn ysgol fel y gallant gefnogi'r plentyn. Mae hefyd yn bwysig i'r rhieni weld eich bod yn defnyddio'r iaith darged gyda'u plentyn.

Dyna pam, ochr yn ochr â'r canllaw hwn, yr ysgrifennwyd pamffled ar gyfer rhieni, yn ogystal â phobl eraill sy'n delio â phlant mewn lleoliadau dwyieithog ac amlieithog. Mae'n egluro camau gwahanol datblygiad ieithyddol plentyn o'i eni nes ei fod yn 4 oed, ynghyd ag awgrymiadau a chyngor ar gyfer y rhieni a brodyr neu chwiorydd o ran helpu datblygiad ieithyddol y plentyn. Os ydych yn dymuno cael copi, cysylltwch â'r corff perthnasol yn eich cymuned (**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**).

Section 2: Collaboration with parents on linguistic matter

You should remember that cooperating with parents is very important for a child's language development: it is the parents who give the child their language(s), and the child care professionals who support and stimulate the language(s).

It is important that there is collaboration between the staff and parents. Staff can find out more about the child via the parents and have a better understanding of the parents' views. In order to make this work, it is important that parents have a chance to observe activities at the pre-school setting. Talk to the child's parents about what you are doing, and how the pre-school setting and the child's home can support and complement each other. To strengthen this link between staff and parents, you may also like to ask the parents to complete the questionnaire included in this guide.

Parents need to be reassured with their choice of bilingualism for their child and they need to feel and be part of it. The parents need to feel that they are a part of the language learning and development stages of their child. It is also important, with regard to the language acquisition process, for parents to be aware of what goes on at the pre-school setting so they can provide support for the child. It is also important for the parents to see that you use the target language with their child.

That is why, along with this guide, a parents' pamphlet has been written. This is a pamphlet not only for parents, but for others who deal with children in bilingual and multilingual settings. It explains the different stages of a child's linguistic development before birth until 4 years-old along with suggestions and tips for the parents and siblings in helping the child during his/her linguistic development. If you wish to receive a copy, please contact the relevant body in your community (**Welsh Language Board**).

Awgrymiadau a chyngor:

- Dylid cael trafodaeth sy'n canolbwyntio ar iaith gyda'r rhieni cyn bod y plentyn yn dechrau gofal dydd, a dylid parhau â thrafodaethau o'r fath yn ystod cyfarfodydd â rhieni drwy gydol y flwyddyn. Siaradwch â'r rhieni am bwysigrwydd cefnogi iaith y cartref (os yw'n wahanol i'r iaith darged yn y lleoliad gofal dydd). Trafodwch sut y gall y cartref gefnogi'r plentyn i gaffael iaith yn y lleoliad cyn ysgol, p'un ai hon yw mamiaith y plentyn ai peidio. Gallwch ddefnyddio'r Holiadur Iaith fel sail ar gyfer trafodaeth (gweler yr atodiad).
- Mae'n bwysig annog rhieni nad ydynt yn siarad yr iaith leiafrifol/darged i gefnogi datblygiad ieithyddol eu plentyn. Er enghraifft, gallant ddarllen llyfrau yn yr iaith darged, neu wrando ar ganeuon yn yr iaith darged. Er mwyn gwneud yr iaith yn weladwy, gallwch ysgrifennu'r geiriau, y caneuon a'r rhigymau a ddefnyddir gennych ar hyn o bryd ar ddarn o bapur i'w arddangos yn y neuadd. Rhowch y geiriau hyn i'r rhieni, fel eu bod yn gallu eu defnyddio gyda'r plentyn y tu allan i'r lleoliad gofal dydd. Gallwch ofyn iddynt ddarllen llyfrau syml yn yr iaith darged, ac efallai y bydd y plentyn yn awyddus i helpu. Gallai eu plentyn hefyd wrando ar lyfrau sain, DVDs, cerddoriaeth a gwylio rhaglenni teledu yn yr iaith darged yn y cartref, megis rhaglenni CYW ar S4C. Gallwch ddod o hyd i fwy o awgrymiadau ar y rhyngwyd. (Ar gyfer dolenni gwefannau, edrychwch ar 'Gwefannau a Dolenni defnyddiol'.
- Trefnwch bartïon ar y cyd, diwrnod agored yn y lleoliad cyn ysgol, digwyddiadau a chyfarfodydd ar gyfer plant a rhieni/neiniau a theidiau. Gallwch hyd yn oed ganolbwyntio ar yr iaith ar ddiwedd uned thema neu ar gyfer gwyliau diwylliannol, megis Dydd Gŵyl Dewi, y Nadolig a'r Pasg. Mae digwyddiadau gwahanol yn ysbrydoli pobl amrywiol i gymryd rhan.
- Gallwch hefyd annog neiniau a theidiau neu eraill sy'n siarad yr iaith darged i chwarae, darllen neu ganu gyda'r plant bob wythnos.
- Ar gyfer yr adran hon gallwch ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau: "bagiau llyfrau" ar gyfer plant 1 - 4 oed ac "Arth sy'n ymweld â'r cartref" ar gyfer plant 3 - 4 oed "Dweud a disgrifio".

Suggestions and tips:

- Have a language-focused discussion with the parents before the child starts day care and continue to discuss language with the parents throughout the year. Talk to the parents about the importance of supporting the child's home language (if it is different to the target language in day care). Discuss how the home can support the child in the acquisition of language at the pre-school setting whether or not it is the child's first language. You could use the Language Questionnaire as a base for discussion (see appendix).
- It is important to encourage parents who do not speak the minority/target language to support their children's linguistic development. They can, for example, read books in the target language, or listen to songs in the target language. In order to make language visible, you can write the words, songs and rhymes that you currently use on paper that you hang up in the hall. Give these words to the parents, so that they can use them with the child outside day care. You could ask them to read simple books in the target language, and the child might be eager to help. Their child could also listen to audio books, DVDs, music and watch TV programs in the target language at home, such as CYW programmes on S4C. You can find more tips on the internet. (For links of websites, look at "Tips for websites").
- Arrange joint parties, an open day at the pre-school setting, events and meetings for children and parents/grandparents. You can even focus on the language during the end of a theme unit or for cultural celebrations, such as St. David's Day, Christmas and Easter. Different events inspire various people to take part.
- You can also encourage grandparents or others who speak the target language to play, read or sing with the children on a weekly basis.
- For this section you could use the exercises and activities cards: for children 1 – 4 years "Book bags" and for children 3 – 4 years "A Teddy bear that visit the home" ("Telling and describing").

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

- Trafodwch gydach gilydd pa fath o gydweithio yr hoffech ei gael gyda rhieni er mwyn gwella, cefnogi ac ysgogi iaith y plant.

Trafodwch sut y gallwch gydweithio â'r rhieni a'u cynnwys ym mhroses eu plant o gaffael iaith? Efallai y gallai'r rhieni gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau cyn ysgol, mewn ffordd sy'n galonogol iddynt? Beth rydych chi'n ei wneud eisoes? Beth allech chi ei newid? Pa ddulliau newydd o ryngweithio rydych chi'n eu cynnwys?

- Trafodwch sut y mae caffael iaith a chymhwysedd yn dylanwadu ar iechyd a lles y plentyn. Codwch y materion hyn gyda'r rhieni hefyd, gan ganolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol ar ddwyieithrwydd.
- Myfyriwch ar bwysigrwydd cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda rhieni a'u cynnwys yn natblygiad ieithyddol y plentyn. Cofiwch werthfawrogi rôl rhieni a'u pwysigrwydd o ran datblygiad ieithyddol eu plentyn, p'un a ydynt yn siarad yr iaith leiafrifol ai peidio.
- Siaradwch am iaith bob dydd y plentyn mewn teuluoedd dwyieithog, yn cynnwys pwysigrwydd bod yn gyson â'r iaith darged (un iaith - un person). Meddyliwch am bwy sy'n defnyddio'r iaith yn y cartref.* Meddyliwch am ba iaith a ddefnyddir gan y plentyn i gymryd rhan mewn hobiau, diwylliant, darllen papurau newydd, darllen ar lafar a llyfrau, teledu a'r Rhyngwrld.

*D.S Yng Nghymru, daw 95% o blant o gefndiroedd di-Gymraeg.

Issues for reflection and development:

- Discuss together what sort of collaboration you would like to have with parents in order to improve, support and stimulate the children's language.

Discuss how you could cooperate with the parents and include them in their children's language acquisition? Maybe the parents could participate in some pre-school activities, in a way that is encouraging for them? What are you doing already? What could you change? What new forms of interaction do you include?

- Discuss how language acquisition and competence influence the child's health and well-being. Raise these items also with the parents and focus on the positive aspects of bilingualism.
- Reflect on the importance of collaboration and sharing information with parents and involving them in the child's language development. Remember to value the role of parents and their importance in the development of the child's language whether they speak the minority language or not.
- Talk about the child's everyday language in bilingual families, including the importance of being consistent with the target language (one language – one person). Think about who uses the language at home.* In which language does the child engage with hobbies, culture, newspapers, reading aloud, books, television and Internet.

*N.B (In Wales, 95% of children come from non Welsh speaking backgrounds)

Adran 3 : Sefyllfaoedd bob dydd a'r amgylchedd ffisegol

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sefyllfaoedd bob dydd a'r amgylchedd ffisegol y tu fewn i'r lleoliad gofal dydd a'r tu allan i'r lleoliad. O fewn eich lleoliad cyn ysgol gallwch drefnu a dodrefnu'r ystafelloedd mewn ffordd sy'n ysgogi iaith.

Er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol, mae'n allweddol i blant gael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Mae ymchwil wedi dangos bod oedolion yn cymryd tua 70% o amser siarad, gyda'r 30% sy'n weddill ar gyfer plant. Mae angen i ni fod yn ymwybodol bod rhaid i bob plentyn gael cyfle i siarad yn ogystal â gwrando bob dydd. Am y rheswm hwn, gallai fod yn bwysig ystyried y drefn ddyddiol arferol o fewn y lleoliad cyn ysgol. Defnyddiwch bob cyfle posibl i rannu a throsglwyddo'r iaith.

Ceir llawer o gyfleoedd i siarad mewn sefyllfaoedd bob dydd. Defnyddiwch sefyllfaoedd bob dydd ar gyfer trafodaethau a gweithgareddau enwi a disgrifio. Mae gweithgareddau bob dydd yn cynnig digonedd o sefyllfaoedd lle gallwch gyflwyno sgysiau, er enghraifft pan fydd plant yn cyrraedd yn y bore, wrth wisgo cotiau, wrth olchi eich dwylo, wrth aros am rywbeth, neu yn ystod prydau bwyd neu fyrbrydau.

Trefnwch y lleoedd yn y lleoliad cyn ysgol fel eu bod yn annog sgysiau. Mae amgylchedd gyda lluniau a geiriau yn ysgogi syniadau ac yn ehangu geirfa a sgiliau llythrennedd y plant. Lle y bo'n bosibl, bydd hefyd yn fuddiol defnyddio'r ardal leol ar gyfer teithiau byr ac i fynd am dro. Mae amgylchedd newydd, hyd yn oed os yw rownd y gornel, yn cynnig profiadau newydd i'r plant sy'n cyfoethogi eu geirfa. Trafodwch yr hyn y gallwch ei weld a thynnwch sylw at fanylion, hyd yn oed y tu allan i'r lleoliad cyn ysgol, e.e. yn y cyntedd, yn yr ardd neu ar y stryd.

Section 3: Everyday situations and the physical environment

This section focuses on everyday situations and the physical environment both inside and outside the day care setting. Within your pre-school setting you can design and furnish the rooms in a language stimulating way.

In order to develop language skills, it is crucial for the children to have opportunities to use the language. Research has shown that around 70 % of talk time is taken up by adults, with the remaining 30 % left for children. We need to be aware that each child must be given a chance to speak as well as listen every day. For this reason, it might be important to examine the daily routines within the pre-school setting. Use every possible opportunity to share and transfer the language.

There are many opportunities for speaking in everyday situations. Utilise everyday situations for discussions, naming and describing activities. Everyday activities offer plenty of situations where you can easily introduce conversations, for example when children arrive in the morning, when putting on or taking off coats, when you wash your hands, when you are waiting for something, or at mealtimes or snack times.

Arrange the spaces at the pre-school setting so that they encourage conversations. An environment with pictures and text stimulates ideas and expands children's vocabulary and literacy skills. Where possible, it is also worth utilising the local area for short excursions and walks. A new environment, even if it's just around the corner, provides new experiences for the children which will enrich their vocabulary. Discuss what you can see and point out details, even outside the pre-school setting e.g. in the lobby, in the garden or on the street.

Awgrymiadau a chyngor:

- Gosodwch luniau a thestunau ar lefel llygaid y plant. Bydd hyn yn denu sylw'r plant, a gall y plant amgyffred y wybodaeth a ddangosir ar y waliau
- Eisteddwch ar y llawr gyda'r plant tra byddant yn chwarae. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt gadw cysylltiad â chi, i ofyn cwestiynau a dangos i chi'r hyn maent yn ei wneud. Gallwch hefyd nodi ac enwi eitemau maent yn chwarae gyda hwy, a thrafod y gwrthrychau gyda'r plant. Mae hefyd yn gyfle da i gynnal chwarae yn yr iaith darged.
- Gallwch hefyd ddangos eitemau nad yw'r plant yn gyfarwydd â hwy. Pan fydd y plant yn meddwl tybed beth yw'r gwrthrych newydd bydd trafodaethau'n codi, a bydd hyn yn annog y plant i ddysgu geiriau newydd. Gallai fod gennych flwch arbennig sy'n ymddangos ar ysbeidiau rheolaidd i ddatgelu rhywbeth newydd ac anghyfarwydd.
- Dylid cynnwys cysrawennau brawddegau sylfaenol a'r eirfa sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd. Bydd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n dysgu'r iaith ac ar gyfer lleoliadau trochi.
- Gellid cynnwys llyfrau mewn ardaloedd penodol yn ogystal ag yn ardal y llyfrgell sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd - er enghraifft llyfrau ffeithiol sy'n gysylltiedig â thywod, dŵr, yr ardal chwarae rôl, yr ardal ddarganfod ac ati.
- Ar gyfer yr adran hon gallech ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau canlynol: ar gyfer plant 1 - 4 oed "Defnyddiwch ardal sgwrsio" (Dweud a disgrifio; ar gyfer plant 3 - 4 oed) "Labelu'r ardal gofod dydd" (Enwi).

Suggestions and tips:

- Paste pictures and text at the children's eye level. This will attract the children's interest, and the children can absorb the information that is posted on the walls
- Sit with the children on the floor while they are playing. This gives the children the opportunity to maintain contact with you, to ask questions and show you what they are doing. You can also identify and name items they are playing with and discuss the objects with them. It is also a good opportunity to maintain play in the target language.
- You can also present objects that the children are unfamiliar with. When the children wonder about what a new object is, discussions arise, and this leads to the children learning new words. You might have a special box that appears at regular intervals to reveal something new and unfamiliar.
- Include basic sentence patterns and vocabulary linked with every activity. This will be useful for those practitioners who are learning the language and for immersion settings.
- Books could be included in specific areas as well as in the library area linked with the activity – for example factual books linked with sand, water, role play area, discovery area etc.
- For this section you could use the following exercise and activity cards: for children 1 – 4 years "Utilise a chat area" (Telling and describing); for children 3 – 4 years, "Label the day care" (Naming).

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

- Trafodwch yr amgylchedd gofal dydd gyda'ch tîm. Meddyliwch am bryd y mae'r ysgogiad iaith mwyaf yn digwydd yn y lleoliad cyn ysgol, a pham. Sut gallwch integreiddio mwy o amser siarad yn eich gweithgareddau bob dydd?
 - Ystyriwch y drefn bob dydd o safbwynt ieithyddol. A ydych yn creu amser ar gyfer ysgogi iaith? A ellir ei ymestyn?
 - Cerddwch o amgylch y lleoliad cyn ysgol, y tu allan yn yr iard chwarae a'r ardal gyfagos gyda'ch gilydd ac arsylwch ar y lleoedd o safbwynt ieithyddol. Cynlluniwch a thrafodwch gyda'ch gilydd sut y gallwch ddefnyddio'r lleoedd a'r amgylchedd lleol o safbwynt iaith.
 - Meddyliwch am sut y gallwch ddefnyddio sefyllfaoedd bob dydd ar gyfer trafodaethau, enwi a disgrifio. Amlinellwch y ffactorau sy'n creu amgylchedd sy'n addas ar gyfer caffael iaith drwy drochi.
 - Trafodwch sut y gallwch addasu gweithgareddau o safbwynt iaith a chysylltwch y syniadau hyn â'r thema bresennol a ddefnyddir yn y lleoliad gofal dydd.
 - Dangoswch sut y gallwch gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd yn yr iaith darged yn y lleoliad gofal dydd.
-



Issues for reflection and development:

- Discuss the day care environment with your team. Think about when the greatest language stimulation occurs in the pre-school setting, and why. How can you integrate more talk time into your everyday activities?
- Consider the daily schedule from a linguistic perspective. Do you find time for language stimulation? Can it be extended?
- Walk around the pre-school setting, outside in the playground and in the nearby surroundings together and observe the spaces with regard to language. Plan and discuss together how you could use the places and the local environment from a language perspective view.
- Think about how you can utilise everyday situations for discussions, naming and describing Outline the factors that create an environment conducive to immersion language acquisition.
- Discuss how you can adapt activities from a language perspective and link these ideas with the current theme used in the day care setting.
- Demonstrate how you can support and develop literacy skills in the target language at the day care setting.

Adran 4 : Awgrymiadau ar gyfer arsylwi ar iaith plant a'i chofnodi

Mae'r adran hon yn ymdrin â sut y gallwch arsylwi ar iaith a datblygiad ieithyddol plant a'u cofnodi. Bydd arsylwi a chofnodi yn codi eich ymwybyddiaeth o ddatblygiad ieithyddol plentyn ac yn eich helpu i wrando ar y plant a chofnodi eu defnydd o iaith. Gallech greu Ffolder iaith er mwyn monitro datblygiad ieithyddol plentyn, gan ei adolygu yn rheolaidd a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer trafodaeth. Mae'r Ffolder iaith yn ffordd i blant a'u rhieni fonitro datblygiad iaith pob plentyn. Mae hefyd yn adnodd i gydweithio â rhieni drwy gynnig ffordd o drafod iaith pob plentyn â'i rieni.

Ffolder iaith

Gallwch ddefnyddio eich systemau a dogfennau cofrestru eich hun fel sail ar gyfer trafodaethau pan fyddwch yn monitro datblygiad ieithyddol y plant

Eitemau ychwanegol ar gyfer y Ffolder iaith:

- Lluniau a/neu ffotograffau, er enghraifft yn dilyn taith, ar thema a ddatblygwyd yn y lleoliad cyn ysgol, neu stori fel y'i hadroddwyd gan y plentyn.
- Ffotograffau sy'n dangos gwaith iaith.
- Lluniau o hoff lyfrau'r plentyn, gyda sylwadau'r plentyn am y llyfrau.
- Y geiriau i hoff hwiangerddi a chaneuon y plentyn.
- Hwiangerddi "yr arth hwiangerddi" a ddychwelwyd i'r ganolfan gofal dydd - gweler Adran 6.
- Dyfyniadau o'r Llyfr Adrodd Straeon - gweler Awgrymiadau a Chyngor
- Trosolwg o iaith y plentyn, naill ai'r Llyfr Cofnodion iaith neu'r Pedair Tasg iaith.
- Holiadur iaith ar gyfer y rhieni sy'n amlygu amgylchedd ieithyddol y plentyn o ddydd i ddydd, gweler yr atodiad.

Section 4: Suggestions for observing and recording children's language

This section deals with how you can observe and record the children's language and linguistic development. Observation and recording will increase your awareness of a child's language development and help you to listen to children and document their language use. You could create a Language Folder to monitor a child's language development, reviewing it at regular intervals and using it as a basis for discussion. The Language Folder provides a way for children and their parents to monitor each child's language development. It also serves as a tool for collaboration with parents by providing a way to discuss each child's language with the parents.

Language Folder

You can use your own registration systems and documents as the basis for discussions when you are monitoring the children's language development

Additional items for the Language Folder:

- Drawings and/or photos, for example following trips, on a theme being developed at the pre-school setting, or a story as told by the child.
- Photos that present language work.
- Pictures of the child's favourite books, with the child's comments about the books.
- The child's favourite nursery rhymes and songs.
- Nursery rhymes "the nursery rhyme teddy bear" brought back to the day care centre – see Section 6.
- Extracts from the Storytelling book – see Suggestions and Tips
- An overview of the child's language, either the Language Logbook or the Four Language Tasks.
- Language Questionnaire for the parents which highlights the languages that the child has around in his/her daily life, see appendix.

Llyfr Cofnodion Iaith

Ar gyfer plant iau a'r sawl sydd ond yn gwybod ychydig eiriau o'r iaith darged, mae Llyfr Cofnodion Iaith yn gweithio'n well. Gallwch ddefnyddio'r llyfr cofnodion hwn i gadw cofnod systematig o gyfathrebu'r plentyn, megis disgrifiadau cryno o ddealltwriaeth a chyfathrebu - hyd yn oed cyn i'r plentyn ddechrau siarad. Pan fydd y plentyn yn dechrau siarad, gallwch wneud cofnodion byr o'r hyn a ddywedir ganddo. Cofnodwch hwy air am air a chyn gynted â phosibl; mae'n hawdd anghofio'r ymadroddion a ddefnyddir gan blant. Y ffordd fwyaf hawdd o wneud hynny yw drwy gadw'r llyfr cofnodion wrth law bob amser, gan y bydd plant yn dweud pethau drwy'r amser, neu defnyddiwch nodiadau post-it. Yn ddiweddarach a phan fydd gennych amser, gallwch gofnodi'r geiriau a'r ymadroddion yn llyfr cofnodion iaith y plentyn ei hun.

Language Logbook

For smaller children and those who know only a few words of the target language, a Language Logbook works better. You can use this logbook to keep a systematic record of the child's communication, such as brief descriptions of comprehension and communication – even before the child starts to speak. When the child begins to talk, you can make brief notes of what the child says. Write them down exactly and as soon as possible; it's easy to forget the expressions children use. The easiest way to do it is to keep the logbook handy at all times, as the children will say things throughout the day, or you may like to use post-it notes. Later and when time allows, you can record the words and phrases in the child's own language logbook.



Y Pedair Tasg iaith (o 3 oed ymlaen)

Isod ceir pedair tasg iaith sy'n gallu rhoi dealltwriaeth o ddatblygiad ieithyddol a sgiliau ieithyddol plentyn teirblwydd oed. Ni ddylid ystyried y tasgau fel prawf; yn hytrach, diben y tasgau yw mesur agweddau amrywiol ar sgiliau ieithyddol pob plentyn: dweud, cyfuno, nodi a disgrifio.

Dweud:

Gofynnwch i'r plentyn dynnu llun o rywbeth a siarad amdano, megis stori y mae wedi'i chlywed, lle y mae wedi ymweld ag ef neu brofiad arall. Cofnodwch yr hyn a ddywedir gan y plentyn gyda disgrifiad fel yr adroddwyd gan y plentyn.

Cyfuno:

Gofynnwch i'r plentyn ddewis dau lun (o gylchgronau, sticeri) ac yna glynwch hwy ar ddalen o bapur. Yna gofynnwch i'r plentyn siarad am y lluniau a'u cyfuno i greu stori. Nodwch yr hyn a ddywedir gan y plentyn.

The Four Language Tasks, (3 years onwards)

Below are four language tasks that can provide insights on language development and the language skills of a child aged three years old. The tasks should not be seen as a test; rather, the purpose of the tasks is to gauge various aspects of each child's language skills: telling, combining, identifying and describing.

Telling:

Have the child draw and talk about something, such as a story he or she has heard, a place he or she has visited or some other experience. Write down what the child says with an account as told by the child.

Combining:

Have the child select two pictures (from magazine, stickers) and stick them onto a sheet of paper. Then ask the child to talk about the pictures and combine them to create a story. Write down what the child says.



Nodi:

Gofynnwch i'r plentyn edrych i mewn i flwch sy'n cynnwys nifer o wrthrychau bach, yna eu tynnu allan o'r blwch a'u henwi.

Dewiswch wrthrychau gwahanol i'w gosod yn y blwch ar gyfer pob plentyn, yn dibynnu ar sgiliau ieithyddol y plentyn. Nodwch yr hyn a roddir gennych yn y blwch, a'r hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud am y gwrthrychau.

Disgrifio:

Gofynnwch i'r plentyn ddisgrifio gwrthrych neu degan, e.e. mae cwningen tegan gyda dillad mewn sach deithio. Gall fod gan y gwningen fag gyda chardiau post ynddo. Gofynnwch i'r plentyn ddisgrifio'r gwningen a'r hyn sydd ar y cardiau post. Nodwch y disgrifiadau a roddir gan y plentyn ar gyfer yr eitemau.

Cyflwynwyd 'Y Dewin' a'i gi i'r rhan fwyaf o'r lleoliadau cyn ysgol yng Nghymru. Cysylltwch y gweithgaredd hwn â'r dewin a thrafodwch y lleoedd y bu'r dewin yn ymweld â hwy.

Nid oes rhaid i chi gwblhau pob un o'r tasgau hyn gyda phob plentyn, a gellir amrywio'r tasgau. Gallwch hefyd ychwanegu ailadrodd ac arsylwi (yn ystod amseroedd chwarae rhydd er enghraifft) a thasgau eraill hefyd. Sicrhewch fod y tasgau'n apelio i'r plentyn fel ei fod yn teimlo'n hapus ac yn addasu i'r iaith.

**Identifying:**

Have the child look into a box containing several small objects, take them out and name them. Choose different objects to place in the box for each child, depending on the child's language skills. Write down what you put into the box, and what the child says about the objects.

Describing:

Have the child describe an object or toy, e.g. a toy rabbit with clothes is in a rucksack. The rabbit might have a bag with some postcards in it. Ask the child to describe the rabbit and what is on the postcards. Write down the descriptions the child gives for the items. In Wales most of the pre-school settings were presented with 'Y Dewin' (the wizard) and his dog. Link this activity with the wizard and discuss the places the wizard has visited.

You don't need to complete all of these tasks with every child, and the tasks can be varied. You can also add repetition and observation (during free playtimes for example) and other tasks as well. Make the tasks appealing to the child so that he/she feels happy and adapts to the language.

Awgrymiadau a chynghor:

- Os oes gennych bortffolio neu lyfr cofnodion ar gyfer pob plentyn eisoes, gallwch ychwanegu canfyddiadau'r Ffolder Iaith, y Llyfr Cofnodion Iaith a'r Pedair Tasg Iaith iddo.
- Cynlluniwch sut y byddwch yn dechrau arsylwi a chofnodi'r iaith a faint o amser y gallwch ei neilltuo. Gallech rannu'r tasgau ymhlith eich grŵp.
- Cam wrth gam. Er enghraifft gallwch ddechrau drwy roi cynnig ar rai o'r Tasgau Iaith gyda'r plant hŷn. Gallwch gadw rhestr o enwau'r plant a dyddiadau a thicio enw pob plentyn rydych wedi siarad â hwy bob dydd. Bydd hyn yn eich helpu i nodi pa blant sydd angen mwy o amser siarad a sylw.
- Crëwch 'lyfr cofnodion adrodd straeon' gyda'r plant er mwyn eu hannog i siarad. Tra bod y grŵp cyfan yn eistedd gyda'i gilydd, gallwch ofyn a oes gan unrhyw un rywbeth i'w ddweud wrth y grŵp. Nodwch hynny yn yr iaith darged wrth i'r plentyn siarad ac yna darllenwch y cofnod yn uchel. Anogwch y plant llai siaradus i siarad am rywbeth hefyd. Sicrhewch fod pawb sydd am ychwanegu rhywbeth yn cael y cyfle i wneud hynny. Gallwch hefyd ddarllen yn uchel o'r llyfr cofnodion. Defnyddiwch y llyfr hwn dro ar ôl tro - gall fod yn offeryn defnyddiol ac arwain at fathau eraill o ddysgu (cyfrif a thynnu lluniau). Mae hynny'n hwyl i'r plant, a bydd y gweithgaredd yn eu hannog i siarad mwy.
- Ar gyfer yr adran hon gallwch ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau canlynol: ar gyfer plant 1 - 2 oed "Pysgota" (Enwi); ar gyfer plant 3 - 4 oed "Pysgota" (Disgrifio).

Suggestions and tips:

- If you already have a portfolio or a logbook for each child, you could add the findings from the Language Folder, the Language Logbook and the Four Language Tasks into it.
- Plan on how to start observing and recording the language and how much time you are able to invest. You could divide the tasks among your group.
- Start step by step. You could for example begin with trying out some of the Language Tasks with the older children. You might keep a list of the children's names and dates and tick off the name of each child you have spoken with each day. This will help you to note which children need more talk time and attention.
- Create a 'storytelling book' with the children to encourage them to speak. While sitting together you can ask if someone would like to tell the group something. Write it down in the target language as the child speaks and then read it out. Encourage the less talkative children to talk about something as well. Make sure that everybody who would like to add something has the chance to do it. You can also just read aloud from the notebook. Use this book over and over again - it can be a useful tool and lead to other types of learning (counting and drawing). Whilst also being fun for the children, this activity will encourage them to talk more.
- For this section you could use the following exercises and activity cards: for children 1 - 2 years "Fishing" (Naming); for children 3 - 4 years "Fishing" (Describing).

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

- Dylid myfyrio ar arwyddocâd arsylwi ar ddatblygiad ieithyddol plant a'i gofnodi.
- Sut gallwch arsylwi ar ddatblygiad ieithyddol plant a'i gofnodi yn ystod cyfnodau o chwarae a bywyd bob dydd?
- Sut gallwch arsylwi ar iaith plant a'i chofnodi wrth ddefnyddio naill ai'r Llyfr Cofnodion Iaith neu'r Pedair Tasg Iaith (Dweud, Cyfuno, Nodi a Disgrifio)?
- Myfyrio ar yr adnoddau yn y Ffolder Iaith a'r Llyfr Cofnodion Iaith.
- Sut bydd y tîm yn defnyddio'r ddogfennaeth i fonitro datblygiad ieithyddol plant?
- Cydweithwch i bennu'r llinell sylfaen ar gyfer lefel ieithyddol pob plentyn.

Issues for reflection and development:

- Reflect on the significance of observing and recording children's language development.
- How can you observe and record the child's language development during play and daily life?
- How can you observe and record children's language while using either the the Language Logbook or the Four Language Tasks (Telling, Combining, Identifying and Describing)?
- Reflect on the instruments in the Language Folder and the Language Logbook.
- How will the team utilise the documentation to monitor children's language development?
- Work with each other to determine the baseline at which each child operates linguistically.



Adran 5 : Gweithio gyda themâu, a phwyslais ar faterion ieithyddol

Mae gweithio gyda themâu, neu brosiectau addysgol, yn ddull ardderchog i'w ddefnyddio gyda grwpiau o blant iau, ac ar gyfer plant y mae angen datblygu eu hiaith. Diffiniwch thema yr hoffech ei harchwilio'n fanylach, ac yna gweithiwch gyda'r cynnwys mewn amryw o ffyrdd. Mae hyn yn eich galluogi i integreiddio agweddau amrywiol ar amgylchedd y plentyn mewn gweithgareddau.

Gyda'r dull hwn, mae'r holl ddysgu yn digwydd mewn ffordd strwythuredig iawn, mewn amgylchedd diogel, ac yn unol â gallu'r plentyn i ddysgu. Mae gweithio gyda themâu a phrosiectau addysgol yn eich galluogi i ymgysylltu â'r iaith mewn amryw o ffyrdd; gall y plant a'r ymarferwyr siarad yn rheolaidd, gall yr ymarferwyr fyfyrir ar feddylliau'r plant, tra'n nodi'r cynnwys a'r eirfa nad ydynt yn bresennol yn yr amgylchedd gofal dydd.

Mae'r adran hon yn cyflwyno gweithio gyda themâu ac yn egluro beth y dylech ei ystyried wrth gynllunio a chyflwyno thema fel ei bod yn datblygu iaith y plentyn. Mae gwaith thema yn cynnwys cynllunio'r hyn y dylai'r plant ddatblygu dealltwriaeth ohono; archwilio meddylliau'r plant, cael gwybod am feddylliau'r plant drwy siarad, chwarae, tynnu lluniau a datrys problemau; creu sefyllfaoedd i blant feddwl amdanynt a myfyrir arnynt, ac arsylwi a chofnodi er mwyn gwerthuso. Un o ragofynion gwaith thematig yw bod angen amgylchedd goddefgar, adeiladol rhwng yr oedolion a'r plant ac ymhlith y plant eu hunain.



Section 5: Working with themes, and emphasis on linguistic factors

Working with themes, or educational projects, is an excellent method to use with groups of younger children, and for children whose language needs developing. Define a theme that you would like to explore in more detail, and then work with the content in a variety of ways. This enables you to integrate various aspects of the child's environment into activities.

With this method, all learning is undertaken in a very structured way, in a secure environment, and in line with the child's capacity for learning. Working with themes and educational projects enables you to engage with the language in a variety of ways; the children and practitioners can regularly talk, practitioners can reflect on the children's thoughts whilst noting content and vocabulary that are not present in the day care environment.

This section introduces working with themes whilst also explaining what you should consider when planning and presenting a theme so that it develops the child's language. Theme work includes planning what the children should develop an understanding of; exploring children's thinking, finding out children's thoughts by means of talking, playing, drawing and problem-solving; creating situations for children to think about and reflect on, and observing and recording in order to evaluate. A prerequisite for thematic work is that there needs to be a tolerant, constructive environment between the adults and the children and among the children themselves.

Cynllunio a chyflwyno

Pan fyddwch yn cynllunio thema, neu brosiect addysgol ar gyfer plant ifanc, mae'n syniad da dewis un sy'n berthnasol i'r plant ac sy'n gysylltiedig â'u bywydau bob dydd. Mae rhai enghreifftiau o themâu da yn cynnwys: Fi, Fy Nheulu, y Tywydd, Dŵr, Trafnidiaeth, Dillad, y Fferm, Yn Yr Ardd.

Gwnewch gysylltiad clir rhwng y cynnwys a bywydau'r plant a'r hyn y gallant ei ddychmygu. Pan fydd y thema'n berthnasol yn uniongyrchol i brofiadau'r plentyn, mae'n ystyrlon iddynt ac yn gallu eu hysbrydoli. Dylid cysylltu'r thema âth cwricwlwm a dylid pennu amcanion clir ar gyfer y thema, o ran cynnwys ac iaith. Pa eiriau a chystawennau ydych am i'r plant eu caffael? Sut y gallwch gyflwyno'r thema fel ei bod yn cynyddu diddordebau'r plentyn a pha faterion ydych am iddynt fyfyrion arnynt?

Wrth gynllunio, gallwch amcangyfrif faint o amser i'w dreulio ar y thema. Gall hyd unedau gwahanol y gwaith thematig amrywio yn dibynnu ar eu natur a'u cwmpas. Weithiau gall uned y thema barhau am dair wythnos, tra gall eraill barhau am hanner tymor. Os oes angen, gellir rhannu'r thema'n unedau llai. Gadewch i'r thema ddatblygu ar sail diddordebau ac anghenion y plant, a gadewch le i feddyliau a syniadau'r plant. Eich tasg yn ystod uned y thema yw sicrhau bod y plant yn canolbwyntio ar y cynnwys sy'n ffurfio amcan y gweithgareddau. Golyga hyn eich bod yn gadael i brofiadau'r plant ddod i'r amlwg, ond mai chi sy'n penderfynu ar y cynnwys mewn ymarfer. Mae'r wybodaeth rydych am i'r plant ei dysgu yn bresennol yn yr amgylchedd, ond eich tasg chi bob amser yw bod yn ymwybodol o'r hyn rydych angen tynnu sylw'r plant ato.

Planning and presenting

When you are planning a theme, or an educational project for young children, it is good to choose one that is relevant to the children and has some connection to their everyday lives. Some examples of good themes are: Me, My Family, The Weather, Water, Transport, Clothing, The Farm, In The Garden.

Make a clear connection between the content and the children's lives and what they could imagine. When the theme is directly relevant to a child's own experiences, it feels meaningful and inspiring to them. Relate the theme to your curriculum and set clear objectives for the theme, both in terms of content and language. Which words and language patterns do you want the children to acquire? How could you introduce the theme so that it increases the child's interests and which issues do you want them to reflect upon?

When planning, you can estimate the amount of time to spend on the theme. Different parts of the thematic work may vary in length depending on their nature and scope. Sometimes a thematic unit might last three weeks, while others might take half a term. If necessary, divide the theme up into smaller units. Let the theme take shape on the basis of the children's interests and needs, and leave room for the children's thoughts and ideas. Your task during the thematic unit is to focus the children's attention on the content that forms the objective of the activities. This means that you let the children's own experiences come to the fore, but that you are the one who determines the content in practice. The information you want the children to acquire is present in the environment, but your task is always to be aware of what you need to point out to the children.

Gall fod yn haws cyflawni amcanion ieithyddol os ydych yn penderfynu ymlaen llaw ar ba eiriau ac ymadroddion i'w cynnwys yn y thema. Gallwch gofnodi'r geiriau a'r ymadroddion hyn mewn tri chategori gwahanol a chofio addasu'r geiriau ar gyfer y plant. Mae'r tri chategori hyn fel a ganlyn:

- 1) geiriau sy'n perthyn i'r thema rydych am i'r plant ddysgu i'w defnyddio (geirfa weithredol);
- 2) geiriau sy'n perthyn i'r thema rydych am i'r plant ddysgu i'w deall (geirfa oddefol);
- 3) a geiriau eraill sy'n codi'n aml yn ystod y thema.

Gallwch ddychwelyd i'r rhestrau hyn yn ystod ac ar ôl uned y thema. Bydd rhestrau o'r eirfa sy'n perthyn i'r thema yn eich gwneud yn ymwybodol o ba eiriau y gallwch eu pwysleisio a'u hailadrodd yn eich gweithgareddau bob dydd gyda'r plant. Mae hyn yn rhoi sail gadarn i'ch gwaith iaith.

Yn ystod y gwaith thematig cewch lawer o gyfleoedd i sgwrsio â'r plant am eu profiadau a'u hamgylchedd. Mae hefyd yn gyfle i chi dalu sylw i feddyliau plentyn. Gofynnwch gwestiynau penagored sy'n ymwneud â'r thema yn ystod y diwrnod. Er mwyn cefnogi datblygiad ieithyddol pellach, dylent glywed geiriau sy'n perthyn i'r thema mewn cyd-destunau amrywiol a chan nifer o oedolion gwahanol hy. mewn caneuon, mewn llyfrau a straeon, yn ystod gemau a theithiau cerdded, yn ystod cyfnodau o chwarae rhydd, mewn trafodaethau yn ystod prydau bwyd neu fyrbrydau, mewn sgysiau unigol ag oedolion, ac ati.

It may be easier to meet the language objectives if you decide beforehand which words and expressions to include in the theme. You could write down these words and expressions in three different categories and remember to adapt the words for the children. These three categories are:

- 1) theme-related words you want the children to learn to use (active vocabulary);
- 2) theme-related words you want the children to learn to understand (passive vocabulary);
- 3) and other high-frequency words occurring during the theme.



You can return to these lists during and after the thematic unit. Having lists of theme-related vocabulary will make you aware of which words you can emphasise and repeat in your daily activities with the children. This gives your language work a firm grounding.

During the thematic work you will find many opportunities for conversation with children about their experiences and their environment. It is also an opportunity for you to pay attention to a child's thoughts. Ask open-ended questions concerning the theme during the course of the day. To support further language development, they should hear the theme-related words in a variety of contexts and from a number of

different adults i.e. in songs, in books and stories, during games and walks, during free play, in discussion at mealtimes and snack times, in individual conversations with adults, etc.

Arsylwi ac adrodd


Tra byddwch yn gweithio gyda thema neu ar brosiect addysgol ceir llawer o ffyrdd i arsylwi ar y defnydd o iaith a chyflawniadau ac asesu'r defnydd a'r cyflawniadau hynny. Gallwch arsylwi ar chwarae a sgysiau plant, gan gofnodi'r hyn a ddywedir gan y plant. Yn ogystal, gallwch wrando ar blant unigol neu chwarae gemau sy'n ymdrin â'r themâu ac arsylwi ar iaith y plant. Gallwch hefyd ofyn i'r plant dynnu lluniau a siarad am eu lluniau, neu gael y plant i egluro'r hyn a wnaed ganddynt. Yn olaf, efallai yr hoffech chwarae'r un gêm ar ddechrau a diwedd uned y thema ac arsylwi ar y gwahaniaethau o ran yr iaith a ddefnyddir. Gallwch hefyd gymryd ffotograff o'r plant yn gwneud gweithgareddau sy'n perthyn i'r thema (feithiau, chwarae, paentio, pobi ac ati) a chofnodi'r hyn y mae'r plant yn ei ddweud wrthyh am y ffotograffau. Gellir gosod yr eitemau a grëwyd gan y plant yn eu portffolios.

Dangoswch yn glir i'r plant pan fydd y gweithgareddau sy'n ymwneud â'r thema wedi dod i ben. Rhwch y deunyddiau i gadw gyda help y plant, cyflwynwch raglen, trefnwch arddangosfa neu barti, anfonwch waith prosiect y plant adref gyda hwy a thrafodwch yr hyn rydych wedi'i wneud gyda'ch gilydd. Sicrhewch fod y thema'n weladwy yn y lleoliad cyn ysgol drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi'r plant i ail-gysylltu â'r thema, hyd yn oed os yw'r uned wedi'i gorffen. Mae gweithgareddau dwyn i gof (sef mynd yn ôl dros yr hyn a ddysgwyd) yn hanfodol unwaith i'r prosiect ddod i ben.

Observing and reporting

While you are working with a theme or an educational project there are many ways to observe and assess language use and achievements. You may observe the children's play and conversation, writing down what the children say. In addition, you may listen to individual children or play games that deal with the theme and observe the children's language. You can also ask the children to draw pictures and talk about their drawings, or have the children explain what they have done. Lastly,

you may wish to play the same game at the beginning and end of the theme unit and observe the differences in language use. You may photograph the children during some theme-related activity (excursions, playing, painting, baking, etc.) and write down what the children tell you about the photos. The items that the children have created could be placed in their portfolios.



Indicate clearly to the children when activities on a theme are finished. Pack up the materials together with the children, present a programme, organise an exhibition or party, send the children's project work home with them and discuss what you have done together. Keep the theme visible in

some form in the pre-school setting throughout the year. This will allow the children to reconnect with it, even after the thematic unit is finished. Recall activities (going back over what has been learnt) are essential once the project is over.

Awgrymiadau a chyngor:

- Cynlluniwch sut y bydd eich thema neu brosiect addysg yn cwmpasu fframwaith addysg eich rhanbarth. Meddyliwch am sut y gellir datblygu'r iaith.
- Lluniwch restr o gystrawennau a geirfa benodol rydych am i'r plant eu dysgu o fewn y thema
- Yn ystod gwaith ar y thema, gallwch gael un neu fwy o 'fannau thema' yn cynnwys ardal awyr agored, lle mae'r plant yn creu pethau, yn chwarae gyda deunyddiau ac yn chwarae gemau sy'n gysylltiedig â'r thema.
- Gwnewch 'flychau thema' gyda gwrthrychau, lluniau neu gardiau y gall y plant eu tynnu allan ac edrych arnynt pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Gallwch gael blychau gwahanol gyda phethau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r thema y tu mewn iddynt. Gadewch y blychau allan ar gyfer y plant drwy'r flwyddyn.
- Lluniwch bosteri ar y thema, sef posteri gyda lluniau a geiriau, a gadewch nhw'n weladwy drwy'r flwyddyn. Drwy wneud hynny, gall y plant ailgysylltu â'r thema a siarad amdani yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn atgoffa'r plant o'r hyn a ddysgwyd ganddynt a'u gwybodaeth gyfredol.
- Dylid cynnwys rhieni yn y thema: dywedwch wrthynt beth yw'r thema a beth rydych yn ei wneud mewn perthynas â hi. Beth am ddangos y portffolio i'r rhieni? Drwy wneud hyn, gall y rhieni annog eu plant i drafod y thema gyda hwy. Gallwch hefyd lunio rhestr eirfa sy'n gysylltiedig â'r thema ar gyfer rhieni.
- Ar gyfer yr adran hon gallwch ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau canlynol: ar gyfer plant 1 – 2 oed "Rhannau'r Corff" (Enwi), ar gyfer plant 3 – 4 oed "Gêm guddio gyda dillad" a "Rhoi'r dillad ar y lein i sychu" (mae'r ddau yn weithgareddau Cofio a Chanolbwytio).

Suggestions and tips:

- Work out how your theme or educational project will cover your region's educational framework. Think about how the language can be developed.
- Make a list of specific sentence patterns and vocabulary you want the children to learn within the theme
- During work on the theme, you can have one or more 'theme stations' including the outside area where the children create things, play with materials and games related to the theme.
- Make 'theme boxes' with objects, pictures or cards that the children can take out and look at when they wish. You could have different boxes with different things related to the theme inside. Leave them out for the children all year.
- Make theme posters, posters with pictures and words, and leave them visible all year. This way, the children can reconnect with the theme and talk about it during the year. This is a reinvestment of what has been learnt and what the children now know.
- Include parents in the theme: inform them what the theme is about and what you are doing in relation to the theme. Why not show the portfolio to the parents? In this way, parents can encourage their children to discuss the theme with them. You may also produce theme related vocabulary for parents.
- For this section you could use the following exercises and activity cards: for children 1 – 2 years "Parts of the body" (Naming); for children 3 – 4 years "Hiding game with clothes" and "Hang the washing out to dry" (both are Memory and concentration activities).

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

- Trafodwch eich barn ar waith thema neu brosiect addysgol a beth yw ei fanteision.
- Myfyriwch ar beth yw'r man cychwyn i chi wrth ddewis y thema: dymuniadau a diddordebau'r plant, digwyddiad calendr neu ffenomen bywyd bod dydd, neu ran o ddatblygiad y plant lle mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac ati? Sut ydych chi'n penderfynu pa eiriau ac ymadroddion y dylid eu cynnwys yn y thema?
- Dewiswch thema: Sut mae'r thema'n gysylltiedig â'ch fframwaith? Pa swyddogaeth a gyflawnir gan eich thema? Beth ddylanwadodd ar eich dewis o thema?
- Sut y gallwch wneud gwaith y thema'n ieithyddol ysgogol? Sut y gallwch integreiddio'r iaith a'r geiriau i mewn i fywyd bob dydd? Trafodwch sut y gallwch ganolbwyntio ar eiriau a syniadau, yr amser ar gyfer sgysiau a gweithgareddau, amser siarad y plentyn unigol a deall iaith. Sut y byddwch yn arsylwi a chofnodi?
- Cynlluniwch y thema ac eglurwch sut y bydd yn ysgogi iaith y plant. Mae'n bwysig gweithio fel tîm; cofiwch fod gan bob person gymwyseddau gwahanol. Pan fyddwch yn ystyried hyn yna gall pob ymarferydd gymryd rhan gyda'r gweithgareddau sy'n apelio atynt fwyaf.

Issues for reflection and development:

- Discuss what you think working with a theme or an educational project is and the benefits it entails.
- Reflect on what the starting point for you is when you select the theme: children's wishes and interests, a calendar event or a phenomenon of everyday life, or something that needs extra support in a child development etc? How do you decide which words and expressions should be included in the theme?
- Choose a theme: How is the theme connected to your framework? What function does your theme fulfil? What influenced your choice of theme?
- How can you make the thematic work linguistically stimulating? How can you integrate the language and the words into everyday life? Discuss how you can focus on words and ideas, the time for conversation and activities, the individual child's active talk time and language understanding. How will you observe and report?
- Plan the theme and explain how it will stimulate the children's language. Team work is important; remember that every person has different competencies. When you take this into account then every practitioner can participate with activities that appeal more to them.

Adran 6 : Sut i ysgogi defnydd plant o iaith

Mae plant yn dysgu ac yn datblygu eu hiaith pan gânt ddigon o gyfleoedd i siarad a mynegi eu hunain. Mae'n bwysig sicrhau y caiff pob plentyn y cyfle a'r amser i siarad. Mae straeon a llyfrau yn ffynhonnell modelau iaith, ac maent hefyd yn cynnig cyfleoedd amrywiol i blant siarad, disgrifio a myfyrio. Mae'r adran hon yn cyflwyno adnoddau ar gyfer cael sgysiau gyda phlant ac yn egluro sut y gallwch ddefnyddio straeon mewn ffordd sy'n ysgogi iaith plant.

Sgysiau

Mae plant yn dysgu iaith y mae ganddynt gyfle i'w defnyddio eu hunain; nid yw'n ddigon i gael yr iaith yn 'suo' o'u hamgylch. Manteisiwch ar bob cyfle i siarad â'r plant. Pan fydd plant yn gallu mynegi eu meddyliau, dychmygu, myfyrio, adrodd straeon ac egluro, maent hefyd yn caffael iaith. Mae awyrgylch cysurion a diogel yn annog y plant i siarad.

Sicrhewch fod y sgwrs yn parhau drwy gydnabod y plentyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos plant sy'n mynychu gofal dydd yn eu hail neu drydedd iaith. Pan fyddwch yn dangos eich bod yn deall, ac yn annog y plentyn am ddefnyddio geiriau ac ymadroddion ac yn rhoi clod iddo am wneud hynny, mae hyn yn gwella cymhelliant y plentyn i siarad. Mae pob plentyn yn wahanol iawn o ran y ffordd mae'n dechrau defnyddio iaith, felly dylech addasu eich iaith i bob plentyn a'i annog i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion y mae'n eu gwybod eisoes. Yn wir, gallech siarad ar lefel sy'n uwch na'r hyn a ddeallir gan y plentyn, fel y gall ddysgu geiriau, ymadroddion a chysyniadau newydd.

Section 6: How to stimulate children's language use

Children learn and develop language when they have plenty of opportunities to speak and express themselves. It is important to ensure that every child is given opportunity and time to speak. Stories and books are a source of language models, and they also offer children a variety of opportunities to talk, describe and reflect. This section presents tools for having conversations with children and explains how you can use stories in a way that stimulate children's language.

Conversations

Children learn language that they have a chance to use themselves; it's not enough to have the language simply 'buzzing' around them. Take all opportunities to speak with the children. When they can express their thoughts, imagine, reflect, tell stories and explain, they are also acquiring language. A reassuring and secure atmosphere encourages children to talk.

Keep the conversation going by acknowledging the child. This is particularly important in the case of children who attend day care in their second or third language. When you indicate that you understand, and you encourage and praise the child for using words and expressions, this improves the child's motivation to speak. Children differ greatly in the way they begin to use language, so you should adapt your language to suit each child and encourage the child to use the words and expressions he or she already knows. In fact, you might talk at a level higher than the child understands, so he or she can learn new words, phrases and concepts.

Gweithio gyda straeon

Yn ogystal â sgwrsio â phlant, mae ysgogiadau iaith â ffocws mewn lleoliadau cyn ysgol yn cynnwys adrodd straeon, darllen, canu, ac adrodd rhigymau a hwiangerddi iddynt hwy a gyda hwy.

Mae darllen ar lafar i un neu ddau o blant yn y cartref yn sefyllfa wahanol iawn i ddarllen o flaen grŵp. Mae'n sefyllfa wahanol iawn i'r plant hefyd. Mae'n llawer mwy anodd gwrandao gyda phlant eraill nag yw i wrando ar stori amser gwely yn y cartref. Pan fyddwch yn actio'r stori gyda gwrthrychau, doliau a chelfi eraill, mae'n haws i'r plant ganolbwyntio mewn grŵp a deall a dilyn y stori.

Rhai agweddau ar ddatblygu ieithyddol ar amser stori:

- **Datblygiad iaith:** Mae adroddwr straeon yn fodel rôl ieithyddol ar gyfer ynganu, cystrawen a geiriau ac ymadroddion newydd.
- **Adloniant:** Dylai amser stori fod yn apelgar, yn ddeniadol ac yn hwyl. Mae plant yn dysgu wrth gael hwyl
- **Anogaeth:** Mae amser stori yn annog plant i fod yn weithgar ac adrodd eu straeon eu hunain.
- **Gwell canolbwyntio:** Mae amser stori yn annog plant i wrando'n astud ar yr hyn y mae'r adroddwr yn ei ddweud, ac i gaffael 'iaith delweddu'.
- **Cyfryngwr gwybodaeth:** Gall amser stori gyfleu gwybodaeth am bobl, anifeiliaid, ymddygiad a chydberthnasau.
- **Yr elfen ddiwylliannol:** Mae amser stori yn cynnig profiad diwylliannol i blant sy'n cyfleu moesau a thraddodiadau.
- **Diddorol:** Gall amser stori ennyn diddordeb y plant mewn llenyddiaeth a diwylliant.

Working with stories

In addition to holding conversations with children, focused language stimuli in pre-school settings include telling stories, reading, singing, reciting verses and nursery rhymes to/ with them.

Reading aloud to one or two children at home is a very different situation from reading in front of a group. It is a very different situation for the children as well. It is much more difficult to listen together with other children than to listen to a bedtime story at home. When you act out the story with objects, dolls and other props, it is easier for children to concentrate in a group and understand and follow the story.

Some aspects of language development at story time:

- **Language development:** A storyteller is a language role model for pronunciation, sentence structure, and new words and expressions.
- **Entertainment:** Story time should be appealing, engaging and fun. Children learn when they are having fun
- **Encouragement:** Story time encourages children to be active and to tell their own stories.
- **Improved concentration:** Story time encourages children to listen actively to what the storyteller is saying, and to acquire the 'language of pictures'.
- **Knowledge intermediary:** Story time can convey information about people, animals, behaviours and relationships.
- **Cultural element:** Story time provides children with a cultural experience that conveys morals and traditions.
- **Interesting:** Story time can awaken an interest in children for literature and culture.

Po ieuengaf y plant, mwyaf yn y byd y bydd angen cymorth darluniadol a gweledol arnynt er mwyn creu delweddau mewnol yn eu dychymyg o'r stori a adroddir. Dim ond pan fydd y plant wedi clywed stori digon o weithiau y gellir ei hadrodd heb unrhyw gymorth darluniadol. Yna bydd y plant yn barod i ailadrodd y stori eu hunain.

Mae plant wrth eu bodd yn clywed yr un stori dro ar ôl tro. Mae ailadrodd yn golygu adnabyddiaeth, diogelwch a chynefindra ag ystyr geiriau ac ynganiad, gramadeg a chystawen.

Dyma pam eu bod yn hoffi gweithio ar un stori dros gyfnod fwy o amser. Dewiswch stori yn unol â diddordebau ac oedran y plant a'u gallu ieithyddol. Gall y stori fod yn gysylltiedig â'r thema rydych yn gweithio arni. Un enghraifft ardderchog o hyn yw'r llyfr 'Y Lindysyn Llwglyd Iawn' y gellir ei ddefnyddio gyda'r thema 'Yn yr ardd' / 'Bwyd' ac ati. Gweler adran 5 am syniadau o ran sut y datblygir thema o stori.

Pan fyddwch yn dewis stori, dylech hefyd feddwl am y geiriau a'r ymadroddion y bydd y plant yn eu dysgu. Lluniwch restr o'r geiriau a'r ymadroddion hynny. Meddyliwch am sut y gellir actio'r stori, a sut y gall y plant gymryd rhan. Mae angen strwythur clir ar stori i ddiwallu anghenion plant ifanc iawn, a dylid hefyd cynnwys ailadrodd ac odlau.

Pan fyddwch am i'r plant allu ailadrodd y stori i'r oedolion yn eu geiriau eu hunain, gallwch rannu'r broses hon yn dri cham: **cyflwyno'r** stori, **cofio'r** stori wrth siarad â'r plant, ac yna gofyn i'r plant **ailadrodd** y stori eu hunain:

The younger children are, the more pictorial support and visual storytelling they require in order to create internal images of the story that is being told. Only when the children have heard a story enough times, can the story be told without any pictorial support. The children are then ready to retell the story themselves.

Children love to hear the same story many times. Repetition means recognition, security and familiarity with the meaning of words and pronunciation, grammar, sentence structure.

This is why they like to work with a single story over a longer span of time. Choose a story according to the children's interests, ages and language ability. The story may also be linked to the theme you are working with. One excellent example of this is the book 'The Very Hungry Caterpillar' which can be used with the theme 'In the garden' / 'Food' etc. See section 5 on ideas how a theme is developed from a story.

When you choose a story, you should also think about the words and expressions the children will learn. Make a list of those words and expressions. Think about how the story can be acted out, and how the children can participate in the story. A story for very young children needs to have a clear structure, and also include repetition and rhymes.

When you want the children to be able to retell the story to the adults in their own words, you can divide this process into three stages: **introduce** the story, **recall** the story in dialogue with the children, and then have the children **retell** the story themselves:

Dylech ddysgu'r stori'n ddigon da fel eich bod yn gallu ei **chyflwyno** heb ddarllen. Nid oes neb wedi'i eni gyda'r gallu cynhenid i adrodd stori, ond gall pawb ddysgu gwneud hynny. Drwy adrodd straeon dro ar ôl tro, yn y pen draw byddwch yn datblygu eich arddull eich hun o adrodd stori. Mae adroddwr straeon da yn sylwgar. Byddwch yn effro i ymatebion a lefelau cyfranogiad a diddordeb eich gwrandawyr. Dylech adrodd y stori yn fyrfyr mewn ffordd sy'n hawlio sylw eich gwrandawyr. Gallwch ddewis sut i gyflwyno'r stori, p'un ai gyda phypedau menig, fel theatr pen bwrdd, gyda 'blwch straeon' neu drwy luniau.

Ceisiwch **gofio'r** stori wrth siarad â'r plant, fel eu bod yn dod yn gyfarwydd â hi. Gallwch ofyn cwestiynau ategol ar ddechrau'r stori, fel hyn: "Am bwy mae'r stori hon? Ble digwyddodd y stori? Pryd ddigwyddodd y stori?" Gallwch ofyn cwestiynau am y plot: "Beth ddigwyddodd? Sut y digwyddodd hyn? Pam? Beth ddigwyddodd wedyn?" Gallwch holi am ddiwedd y stori: "Beth ddigwyddodd yn y diwedd? Pam ddigwyddodd hynny?"

Pan fydd y plant yn **ailladrodd** y stori, gallant ddefnyddio lluniau neu wrthrychau, sy'n ei gwneud yn haws i adrodd y stori. Gadewch i'r plant adrodd y stori yn eu ffordd eu hunain. Gallwch hefyd ofyn i'r plant dynnu lluniau ac yna sôn am eu lluniau eu hunain. Efallai na fydd y plant ieuengaf yn gallu adrodd y stori mewn geiriau, ond nid yw hynny'n eu hatal rhag cymryd rhan ac actio neu ddangos y stori gyda gwrthrychau.



Learn the story well enough that you can **introduce** it without reading. No-one is born with the ability to tell a story, but we can all learn to do it. By telling stories over and over again, you will eventually develop your own storytelling style. A good storyteller is a good observer. Be alert to your listeners' reactions and levels of involvement and interest. You should improvise the story in a way that keeps your listeners engaged. You can choose how to present the story, whether with glove puppets, as a table top theatre, with a story box or through pictures.

Recall the story in dialogue with the children, so that they all become familiar with it. You can ask supporting questions at the beginning of the story, like this: "Who is the story about? Where did it happen? When did it happen?" You can ask questions about the plot: "What happened? How did it happen? Why? What happened then?" You can ask about the end of the story: "What happened at the end? Why did that happen?"

When the children **retell** the story, they can use pictures or props, which make it easier to tell the story. Let the children be active and tell it in their own way. You can also have the children draw pictures and then talk about their drawings. The youngest children may not be able to tell the story in words, but that doesn't prevent them from participating and acting out or demonstrating the story with props.

Awgrymiadau a chyngor:

- Cofiwch fod sgysiau bob amser yn golygu rhyngweithio; cwestiynau ac atebion, cymryd troeon. Fel yr oedolyn, cymerwch gyfrifoldeb am y sgwrs drwy ofyn cwestiynau penagored megis "Beth ddigwyddodd wedyn? Beth rwy ti'n ei olygu? Pwy oedd hynny? Beth ddywedodd e wedyn? Dywed wrtha i!".
- Caniatewch amser i'r plant a stopiwch pan fydd plentyn am ddweud rhywbeth wrthyh. Caniatewch i'r plentyn feddwl am yr hyn y mae am ei ddweud. Ystyriwch feddyliau a diddordebau'r plant. Weithiau gall tractor sy'n gyrru heibio'r ffenestr y tu allan fod yn fwy diddorol na'r hyn rydych yn ei wneud y tu mewn ar y pryd. Manteisiwch ar y cyfle i ddefnyddio iaith drwy arsylwi ar y tractor a'i ddisgrifio a gadael i'r plant fynegi eu barn amdano.
- Defnyddiwch 'garreg siarad' neu degan meddal o hoff gymeriad. Tro'r un sy'n dal y garreg yw hi i siarad. Gall hyn wneud i'r plant deimlo'n ddiogel wrth siarad. Dechreuwch drwy ddal y garreg a ddweud rhywbeth wrthynt. Yna rhowch y garreg i'r plentyn nesaf atoch, sydd yna'n sôn am rywbeth tebyg ac yna'n pasio'r garreg ymlaen. Dewiswch eich enghraifft yn unol â gallu ieithyddol y plant. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i blant feddwl am yr hyn fyddant yn ei ddweud.
- Wrth siarad a rhyngweithio â'r plant, defnyddiwch byped sydd ond yn gallu siarad a deall iaith y lleoliad cyn ysgol. Defnyddiwch byped neu degan meddal sydd ond yn siarad ac yn deall yr iaith darged, megis y Dewin yng Nghymru. Gallwch ddyfeisio hanes i'r pyped, er enghraifft o ble y mae'n dod, hanes ei fywyd a pham ei fod wedi dod i'ch lleoliad cyn ysgol. Gadewch i'r ffigur ymddangos mewn sefyllfaoedd gwahanol a chyflwynwch neu eglurwch eiriau anodd, adroddwch stori neu gofynnwch beth yw ystyr rhywbeth. Gall fod ganddo fag sy'n cynnwys llyfr cofnodion. Gallwch ddefnyddio'r llyfr cofnodion i ysgrifennu negeseuon i'r pyped neu straeon y mae'r plant am eu hadrodd i'r pyped.

Suggestions and tips:

- Remember that a conversation is always interaction; questions and answers, taking turns. As the adult, take responsibility for the conversation by asking open-ended questions such as "What happened then? What do you mean? Who was that? What did he say then? Tell me!".
- Give the children time and stop when a child wants to tell you something. Allow the child to formulate what he or she wants to say. Consider the children's thoughts and interests. Sometimes a tractor driving past the window outside can be more interesting than what you are currently doing inside. Utilise the opportunity for language use by observing and describing the tractor and letting the children express what they think about it.
- Use a 'talking stone' or a favourite soft toy character. The one whose turn it is to speak holds the stone. This can make the children feel secure while they are speaking. Start by holding the stone and telling them something. Then give the stone to the child next to you, who then says something similar and then hands the stone on. Choose your example according to the children's language abilities. This makes it easier for children to think of what they will say.
- When you speak and interact with the children, use a puppet that can only speak and understand the language of the pre-school setting. Get a puppet or a stuffed toy that only speaks and understands the target language, such as Dewin in Wales. You may wish to create a history for the puppet, for example where it comes from, its past life and why it has ended up in your pre-school setting. Let the figure appear in different situations and introduce or explain difficult words, tell a story or ask what something means. It might have a rucksack or bag containing a notebook. You can use the notebook to write messages to the puppet or stories the children want to tell the puppet.

- Defnyddiwch ddefod neu arwydd cyn i chi ddechrau adrodd stori i'r plant, ac eto ar ddiwedd y stori. Mae hyn yn creu ffiniau clir ac awyrgylch 'hudol' sy'n paratoi'r plant i wrando a chanolbwyntio. Gall fod yn hwiangerdd neu'n gân, cloch fach neu flwch cerdd. Gofynnwch i'r plant dynnu llun am y stori ac yna siaradwch am eu lluniau. Newidiwch stori adnabyddus drwy ychwanegu cymeriadau a lleoliadau newydd, gan felly addasu'r testun yn unol â geirfa'r plant drwy wneud iddynt gymryd rhan ac felly llunio'r stori gyda'ch gilydd.
- Paratowch guddfan ogof neu gwt arbennig, neu ardal dawel lle y gall grŵp bach o blant wrando ar y stori. Byddai hynny'n fuddiol ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n brin o hyder wrth adrodd stori. Gellid addasu cwt yn yr ardal awyr agored at y diben hwn.
- Darllenwch i'r plant bob dydd, nid dim ond yn ystod eu cyfnod gorffwys. Neilltuwch amser ar gyfer darllen, adrodd straeon a sgwrsio.
- Gadewch lyfrau mewn mannau neu flychau lle gall plant gael gafael arnynt yn hawdd, a chynlluniwch amser i'r plant eistedd i'w darllen.
- Defnyddiwch y llyfrgell os yw'n bosibl. Os gellid trefnu ymweliad â'r llyfrgell leol, gallai fod yn bosibl trefnu i'r plant wrando ar stori yn yr iaith darged.
- Ar gyfer yr adran hon gallech ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau canlynol: ar gyfer plant 1 - 2 oed "Y Blwch Straeon" a "Dysgu'r stori ar gof" (gweithgareddau cofio a chanolbwyntio); ar gyfer plant 3 - 4 "Y Lindysyn Llwglyd Iawn" gan Eric Carle" (Dweud a disgrifio).
- Use a ritual or signal before you begin telling the children a story and again at the end of the story. This creates clear boundaries and a 'magical' atmosphere that gets the children ready to listen and concentrate. It could be a nursery rhyme or a song, a little bell or a music box. Let the children draw a picture around a story and talk about their drawings. Change a well-known story by adding new characters, location, and therefore adapt the text according to the vocabulary of the children by making them participate and thus writing it together.
- Create a special den, cave or hut, or simply a quiet area where a small group of children can listen to a story. This would be beneficial for those practitioners who lack confidence whilst telling a story. A hut in the outside area could be adapted for this purpose.
- Read to the children every day, not just during their rest. Make time for reading, telling stories and having conversations.
- Leave books in places or in boxes that are easily accessible for the children, and plan time for the children to sit and read them.
- Use the library if possible. If a visit could be arranged to the local library it might be possible to arrange for the children to listen to a story in the target language.
- For this section you could use the following exercises and activities cards: for children 1 -2 years "Story box" and "Memorise the story" (Memory and concentration activities); for children 3 – 4 years "The Very Hungry Caterpillar by Eric Carle" (Telling and describing).

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

- Trafodwch pam fod sgwrsio yn rhan mor annatod o ddatblygiad ieithyddol.
- Myfyriwch ar sut rydych chi'n cydnabod hawl ac angen y plant i siarad am yr hyn maent yn meddwl amdano, a sut maent yn meddwl, a myfyrio ar hyn? Anogwch y plant i ddefnyddio'r iaith darged yn cynnwys rhyngweithio llafar gydag ymarferwyr ac eraill.
- Myfyriwch ar sut y gall sgwrsio ddod yn rhan naturiol o fywyd bob dydd.
- Trafodwch sut y gallwch ddefnyddio straeon i ysgogi iaith plant.
- Disgrifiwch sut y gallwch bwysleisio agweddau ieithyddol wrth adrodd straeon.
- Cynlluniwch a darparwch weithgareddau lle caiff plant unigol gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith darged gyda phlant eraill.



Issues for reflection and development:

- Discuss why conversation is such an integral part of language development.
- Reflect on how you recognize the children's right and need to talk about and reflect on what and how they are thinking? Encourage children to use the target language including verbal interaction with practitioners and others.
- Reflect on how conversation can become a natural part of everyday life.
- Discuss how you can use stories to stimulate children's language.
- Describe how you can emphasise on language aspects in storytelling.
- Plan and provide activities in which individual children have opportunities to use the target language with other children.

Adran 7: Amser chwarae i ysgogi iaith

Mae sesiynau rheolaidd gyda gemau sy'n gyfoethog o ran iaith yn ategu'r amgylchedd datblygiad ieithyddol cyn ysgol. Mae'n bosibl rhoi cymorth rheolaidd o ran datblygiad ieithyddol plant drwy ddefnyddio sesiynau strwythuredig sy'n defnyddio sgiliau ieithyddol amrywiol. Gall staff weithio ar y sgiliau ieithyddol canlynol gyda phlant bach: termau ac enwi; trefnu; y cof a chanolbwyntio; disgrifio a dweud; ymwybyddiaeth ieithyddol; ac ymarferion echddygol llafar ac ynganu. Ar gyfer y plant ieuengaf, dylai'r holl gemau iaith yn y sesiynau hyn ganolbwyntio ar ddatblygu geirfa a sgiliau enwi. Wrth ddatblygu'r sgiliau hyn dylid canolbwyntio ar yr iaith darged.

Section 7: Playtime to stimulate language

Regular sessions with language-rich games supplement the pre-school language development environment. It is possible to provide consistent support for children's language development by using structured sessions that utilise various language skills. The language skills that staff can work on with small children are: terms and naming; sorting; memory and concentration; describing and telling; language awareness; and oral motor exercises and enunciation. For the youngest children, all language games in these sessions should focus on vocabulary building and naming skills. In developing these skills the focus should lie on the target language.



Yn adran 9 cewch enghreifftiau o ymarferion a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ymwybyddiaeth ieithyddol
- termau ac enwi
- trefnu
- y cof a chanolbwyntio
- disgrifio a dweud

Mae'r gweithgareddau ar gyfer plant 1-4 oed, gan ddefnyddio cardiau lluniau yn bennaf. Maent wedi'u dosbarthu'n gyffredinol yn unol ag oedrannau gwahanol, ond mae hefyd yn bwysig ystyried lefel iaith y plant wrth gynllunio'r gweithgareddau. Defnyddiwch a newidiwch y gemau fel eu bod yn teimlo'n ystyrlon ac yn llawn hwyl i'r plant.

Mae'n well cadw'r grwpiau mor fach â phosibl ar gyfer y sesiynau hyn. Bydd hynny'n galluogi pob plentyn i gael cyfle i siarad a chymryd rhan yn weithredol. Mewn grŵp bach, gallwch addasu eich iaith yn hawdd i ddiwallu anghenion pob plentyn a gallwch helpu'r plentyn i ddysgu geiriau a chysyniadau newydd. Dylid integreiddio gweithgareddau iaith o fewn y drefn bob dydd, a dylent fod yn hwyl, gan ddefnyddio gemau, caneuon, symudiadau, rhigymau a hwiangerddi. Dylai amser chwarae fod yn rhan resymegol, naturiol o'r gweithgareddau sy'n ategu'r amgylchedd sy'n ysgogi datblygiad ieithyddol. Mae'n bwysig bod y sesiynau hyn yn ymddangos fel gweithgareddau chwarae sy'n hwyl i'r plant. Gallwch addasu a newid cynnwys y sesiynau i'r plant er mwyn cadw eu diddordeb. Gallwch hefyd wneud y sesiynau'n fyrrach os oes angen. Y peth pwysig yw, yn dilyn y gweithgaredd, dylai'r plant deimlo eu bod wedi gwneud rhywbeth a oedd yn hwyl ac yr hoffent ei brofi eto.

In section 9 you will find examples of exercises and activities on:

- language awareness
- terms and naming
- sorting
- memory and concentration
- describing and telling

The activities are for children aged 1-4 years, mainly with picture cards. They are tentatively classified according to various ages, but it is also important to consider the children's language level when planning the activities. Use and change the games so they feel meaningful and fun for the children.

It is worth keeping the groups for these sessions as small as possible. This will allow each child to have a chance to speak and participate actively. In a small group, you can easily adapt your language to suit each child and you can help the child learn new words and concepts.

Language activities should be integrated into everyday routines, and they should be enjoyable using games, songs, movements, verses and nursery rhymes. Make playtime into a logical, natural part of the activities that serve to supplement the linguistically stimulating environment. It's important that these sessions seem like fun play activities to the children. You can improvise and adapt the content of sessions for the children to sustain their interest. If necessary, you can also make the sessions shorter. The main thing is that following the activity, the children should feel that they have done something which was fun and that they would like to experience again.

Cardiau lluniau

Gellir defnyddio cardiau lluniau gyda phlant mewn sawl ffordd - mewn sesiynau iaith amrywiol ac mewn gweithgareddau bob dydd. Arddangoswch y lluniau ar lefel llygad y plant, gan fod hyn yn ei gwneud yn haws iddynt weld. Mae lluniau'n hwyluso cyfathrebu ar gyfer plant sy'n dysgu iaith y lleoliad cyn ysgol. Maent yn cyflwyno ac yn egluro geiriau ac ymadroddion nad yw'r plant yn eu defnyddio nac yn eu deall eto. Yn enwedig wrth siarad â phlant bach iawn, mae sgwrsio yn haws os ydych yn defnyddio lluniau clir o bethau nad ydynt yn y lleoliad, megis anifeiliaid a cherbydau. Gall dangos lluniau sy'n disgrifio gweithgareddau bob dydd ac sy'n gysylltiedig â hwy annog sgwrsio. Yn y toiledau, gallwch ddefnyddio lluniau o olchi dwylo, tywel, poti ac ati. Yn yr ystafell gotiau gallwch ddangos lluniau o ddillad, amodau tywydd gwahanol neu rieni'r plant. Yn yr ardal ginio, gallai'r lluniau ddangos bwydydd gwahanol, cynwysyddion, a chyllyll a ffyrac ac ati.

Mae'n syniad da cynnwys y geiriau am y gwrthrychau a ddangosir yn y lluniau. Dylid cynnwys 'y' neu 'yr' o flaen enwau fel y bydd y plant yn dod i arfer â defnyddio'r fannod gywir gyda phob gair. Er nad yw'r plant yn gallu darllen y geiriau eto, mae hyn yn eu hannog i ofyn beth mae'r geiriau'n ei ddweud a'u hystyr. Mae'r ysgrifen hefyd yn hyrwyddo'u diddordeb mewn llythrennau a darllen. Ar gyfer plant sydd eisoes yn siarad yr iaith darged, gallwch ddefnyddio'r lluniau i dynnu eu sylw at dermau penodol ar gyfer gwrthrychau - er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng gwydryn, cwpan a mwg. Gallwch hefyd drafod termau a chategoriâu mwy cyffredinol.

Gyda phlant bach, mae'n syniad da cyfuno cardiau lluniau gyda'r gwrthrychau cyfatebol, wrth chwarae ac yn eu bywyd bob dydd. Mae hyn yn aml yn gwneud y lluniau'n fwy diddorol - cânt ystyr ehangach ac mae'r plant yn deall y gydberthynas rhwng y ddelwedd a'r realiti. Mae edrych ar luniau a'u cymharu â gwrthrychau hefyd yn eu hannog i sgwrsio a disgrifio pethau.

Picture cards

Picture cards can be used with children in many ways – in various language sessions and in everyday activities. Display the pictures at the children's eye level, as it makes it easier for them to see. For children who are learning the language of the pre-school setting, pictures facilitate communication. They present and clarify words and expressions that the children do not yet use or comprehend. Particularly when speaking with very young children, conversations are made easier if you use clear pictures of things that are not present in the setting, such as animals and vehicles. Displaying pictures that describe and are linked to day-to-day activities can also encourage conversation. In the toilets, you might use pictures of washing hands, a towel, a potty, etc. In the cloakroom you might display pictures of items of clothing, different weather conditions or the children's parents. In the lunch area, the pictures might depict various food items, containers and eating utensils.

It's a good idea to include the words for the objects depicted in the pictures. Include 'a' or 'an' in front of nouns so that children get used to using the right article with each word. Even though the children cannot read the words yet, this encourages them to ask what the words say and what they mean. The writing also promotes their interest in letters and reading. For children who can already speak the target language, you can use the pictures to draw their attention to the precise terms for objects – for example, the difference between a glass, a cup and a mug. You can also discuss more general terms and categories.

With small children, it is a good idea to combine picture cards with the corresponding objects, both at play and in their everyday life. This often makes the pictures more interesting – they take on a wider meaning and the children understand the relationship between the image and the reality. Looking at pictures and comparing them with objects also encourages them to converse and describe things.

Awgrymiadau a chyngor:

- Er mwyn galluogi plant i gael blas ar air a cheisio'i ddeall y tro cyntaf, gallwch ddweud y gair cyn i chi ddangos y llun. Er mwyn galluogi plant i glywed geiriau cynifer o weithiau â phosibl, gallwch ailadrodd y gair a gynrychiolir gan y llun wrth i chi ei ddangos i bob plentyn.
- Er mwyn gwneud bannod ramadegol y gair yn gliriach, gallwch oedi rhwng y fannod a'r gair wrth i chi enwi llun. Drwy wneud hynny, mae'r plant yn deall fod banodau gan eiriau ac y gallent fod yn wahanol ar gyfer geiriau gwahanol. "Y...car" "Yr...awyren".
- Gellir hefyd ddefnyddio cardiau lluniau fel adnoddau ar gyfer caneuon, cerddi a hwiangerddi. Lluniwch gardiau lluniau sy'n dangos caneuon a hwiangerddi a rhowch hwy mewn un neu fwy o fagiau. Gallwch ysgrifennu'r hwiangerdd a geiriau'r gân ar gefn y cardiau. Gosodwch y bagiau mewn manau yn y lleoliad, fel bod y plant yn gallu eu defnyddio yn ystod y dydd. Gofynnwch i'r plant ddewis cerdyn o'r bag, ac yna canwch neu adroddwch yr hwiangerddi gyda'r plant.
- Gall cardiau lluniau helpu plant i ailadrodd straeon tylwyth teg. Gallwch hefyd greu eich stori eich hun drwy ddosbarthu cardiau lluniau i'r plant ac yna gofyn iddynt adrodd stori gan ddefnyddio'r lluniau.



Suggestions and tips:

- To allow children to "taste" a word and try to understand it first, you can say it before you show the picture. To allow children to hear words as many times as possible, you can repeat the word that the picture represents while you show it to each child.
- To make the use of a word's grammatical article clearer, you can make a brief pause between the article and the word when you name a picture. That way, the children understand that words have articles and that they may be different for different words. "A ... car" "An ... aeroplane".
- Picture cards can also be used as resources for songs, poems and nursery rhymes. Make up some picture cards that depict songs and nursery rhymes and put them in one or more bags. You can write the nursery rhyme and song lyrics on the reverse of the cards. Hang up the bags in the setting, so the children can use them during the day. Have the children pick a card from the bag, then sing or recite the nursery rhymes together with the children.
- Picture cards can help children to re-tell fairy tales. You can also make up your own story by distributing picture cards to the children and asking them to tell a story using the pictures.

- Dangoswch y cardiau lluniau gyda gair yr wythnos (neu'r mis) mewn man arbennig yn y lleoliad. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r plant fyfrio a thrafod y llun.

- Gydath cydweithwyr, cadwch gofnod o'ch gweithgareddau gan gofnodi'r gemau a chwaraewyd, y geiriau a ddefnyddiwyd a'r trafodaethau a gafwyd. Mae hyn yn ffordd ddiddorol o ddatblygu cydweithio ymhlith yr oedolion.

- Os ydych yn trefnu cronfa luniau gyffredin ar gyfer y lleoliad cyfan, lle rydych yn cynnwys pob llun, bydd yn haws i bob ymarferwr ddod o hyd iddynt a'u defnyddio pryd bynnag y dymunant.

- Ar gyfer yr adran hon gallech ddefnyddio'r cardiau ymarferion a gweithgareddau canlynol: ar gyfer plant 1-2 oed "Mawr a bach" (Trefnu) a "Taflu'r dis" (Ymwbyddiaeth ieithyddol); ar gyfer plant 3-4 oed "Tri chategori" (Trefnu) a Gemau Odli (Ymwbyddiaeth ieithyddol).



- Display the picture cards with the word of the week (or month) in a special place in the setting. This will make it easy for the children to reflect and discuss the picture.

- Together with your co-workers, keep a log of your activities where you note the games that you played, the words you used, the discussions that you had. This is an interesting way to build up co-operation among the adults.

- If you arrange a common picture bank for the whole setting, where you include all pictures, it is easier for all practitioners to find and get access to them, whenever they want.

- For this section you could use the following exercises and activities cards: for children 1-2 years "Big and small" (Sorting) and "Throw the dice" (Language awareness) ; for children 3-4 years "Three categories" (Sorting) and Rhyming game (Language awareness).



Materion ar gyfer myfyrion a datblygu:

- Trafodwch ac eglurwch y meysydd sgiliau ieithyddol i'ch gilydd: ymwybyddiaeth ieithyddol, termau ac enwi, trefnu, cofio a chanolbwyntio, disgrifio a dweud.
- Myfyrwch ar sut y gallwch fanteisio ar awydd plant i chwarae ag iaith.
- Trafodwch sut i ddewis gemau: Pa fath o gemau mae'r plant yn hoffi eu chwarae? Sut y gall gemau gwahanol gefnogi datblygiad ieithyddol pob plentyn?
- Ystyriwch agweddau sydd angen eu cadw mewn cof wrth gynllunio sesiynau: pa mor aml y'u cynhelir, maint a chyfansoddiad y grŵp, yr amser a'r lleoliad.
- Trafodwch pam ei bod yn bwysig y dylai'r lluniau fod ar lefel llygaid y plant a sut y gellid cyflawni hyn.
- Pa fath o luniau sydd gennych yn eich canolfan gofal dydd? Sut y gellid eu defnyddio ac a allech chi gael man cyffredin i'w cadw? Ydych chi'n gwybod ble i ddod o hyd i fwy o gardiau lluniau?
- Myfyrwch ar y testun ar y lluniau: Pam bod angen testun ar y cardiau?



Issues for reflection and development:

- Discuss and explain the language skill areas to each other: language awareness, terms and naming, sorting, memory and concentration, describing and telling.
- Reflect on how you can take advantage of children's eagerness to play with language.
- Discuss how to choose games: What kind of games do the children like to play? How can different games support each child's language development?
- Consider aspects to bear in mind when planning sessions; how often, the size and composition of the group, the time and the place.
- Discuss why it is important that the pictures should be on children's eye level and how this could be achieved.
- What kind of pictures do you have at your day care? How can they be used and could you have a common place for them? Do you know where to find more picture cards?
- Reflect on the text on the pictures: (Why) do we need text on the cards?

Adran 8: Myfyrio

Gobeithiwn fod y canllaw hwn wedi rhoi ysbrydoliaeth a syniadau newydd i chi am eich gwaith. Gobeithiwn hefyd ei fod wedi rhoi cyfle i chi atch cydweithwyr fyfyrion ar ba fath o adnoddau sydd ar gael i chi ar gyfer ysgogi datblygiad ieithyddol plant a'r agweddau ar eich gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygiad ieithyddol. Yn ogystal, gallwch hefyd fyfyrion ar sut y gellid cynnig yr iaith darged mewn lleoliadau cyn ysgol mewn ffordd chwareus a naturiol ond eto bwriadol iawn.

Nawr mae'n amser i grynhoi eich myfyrdodau ar y gwaith rydych wedi'i wneud yn yr adrannau amrywiol a meddwl am sut yr hoffech barhau. Yn yr adran hon byddwn yn myfyrio ar yr hyn a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol ac yn cynnig awgrymiadau ar sut y gellir datblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Gallai ymarferwyr cyn ysgol drafod p'un a yw'r canllaw hwn wedi newid eich gwaith ymwybyddiaeth ieithyddol a'r ffordd rydych yn mynd ati i gynllunio ar gyfer defnyddio iaith, a sut mae wedi gwneud hynny. Ystyriwch yr agweddau rydych am ganolbwyntio arnynt yn benodol. Sut y gallwch ddefnyddio'r adnoddau o bob adran er mwyn gwneud eich lleoliad cyn ysgol yn ieithyddol ymwybodol? Efallai y gallwch hyd yn oed lunio cynllun gwaith sy'n addas ar gyfer y plant rydych yn gweithio â hwy, yn ogystal â'r amgylchiadau rydych yn gweithio ynddynt.

Chi yw'r rhai sy'n gwybod beth yr hoffech ei newid yn eich gwaith ysgogi iaith. Er mwyn cyflawni'r nodau a bennwyd gennych, mae'n fuddiol eich bod yn parhau i arsylwi, dadansoddi ac addasu'r gweithgareddau yn eich lleoliad fel eu bod yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant. Dylech gofio ei bod yn bwysig bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys. Mae hyn yn creu teimlad o ddiogelwch sy'n hanfodol ar gyfer gwaith datblygu ieithyddol yn y lleoliad cyn ysgol.

Section 8: Reflection

We hope that this guide has provided you with inspiration and new ideas for your work. We also hope that it has given you and your colleagues an opportunity to reflect on what sorts of resources you have available for stimulating children's language development and the language development aspects of your activities. In addition, you may also reflect on how the target language in a playful and natural way, yet very deliberately, can be offered in pre-school settings.

Now it's time to summarise your reflections on the work you have done in the various sections and think about how you would like to continue. In this section we will reflect on what has been covered in the previous sections and provide suggestions on how this work can be developed even further.

Pre-school practitioners could discuss if this guide has changed your language awareness work and the way you plan for language use, and how it has done so. Consider the aspects you particularly want to focus on. How can you construct the material from each section to create your pre-school setting to be linguistically aware? Maybe you could even create a workplan that is suitable for the children you work with, as well as the circumstances that you work in.

You are the ones who know what you would like to change in your language stimulating work. In order to achieve the goals you have set, it is beneficial to continue to observe, analyse and adapt the activities at your setting so that they meet the needs and the interests of the children. Keep in mind that it is important that all children feel included. This creates a feeling of security which is essential for the language development work in the pre-school setting.

Materion ar gyfer myfyrio a datblygu:

Myfyrio ar gynnwys yr adrannau blaenorol: gallwch fynd dros y blociau yn unigol

- A oes pethau nad oeddech wedi'u hystyried yn flaenorol, ond sydd bellach yn ymddangos yn bwysig ac yn berthnasol i'w trafod? Dewch o hyd i rai enghreifftiau. Sut fydd y ffactorau hyn yn newid eich trefniadau cynllunio?
- Pa bethau a roddwyd ar waith gennych eisoes? Sut rydych wedi ehangu gweithgareddau yn y meysydd hyn?
- A ydych wedi sylwi ar wahaniaeth o ran defnydd iaith y plant? Pa fath o wahaniaeth a fu?
- A oedd unrhyw beth a oedd yn heriol i'w weithredu neu i'w addasu ar gyfer eich gweithgareddau? Os felly, beth?
- Beth allwch chi ei addasu yn eich arfer eich hun er mwyn diwallu anghenion plant unigol?

Treuliwch rywfaint o amser yn meddwl am ddatganiad o weledigaeth a chynllun datblygu ar gyfer gwaith datblygu ieithyddol yn eich lleoliad. Beth fyddwch yn ei roi ar waith dros y 6 i 12 mis nesaf? Ystyriwch yr agweddau canlynol pan fyddwch yn llunio eich datganiad o weledigaeth a'ch cynllun gweithredu:

- Oedolion fel modelau ieithyddol
- Cydweithio â rhieni o ran materion ieithyddol
- Sefyllfaoedd bob dydd a'r amgylchedd ffisegol
- Gweithio gyda themâu, gyda phwyslais ar faterion ieithyddol
- Awgrymiadau ar gyfer arsylwi ar iaith plant a'i chofnodi
- Amser chwarae i ysgogi iaith
- Sut i ysgogi defnydd plant o iaith

Issues for reflection and development:

Reflect on the content of the previous sections: you can go over the blocks individually

- Are there things you hadn't previously considered, but which now seem important and relevant to deliberate upon? Find some examples. How will these factors change your planning?
- What things have you already put into practice? How have you expanded activities in these areas?
- Have you noticed a difference in the children's use of language? What sort of difference has there been?
- Is there anything that is challenging to implement or adapt into your activities? If so, what?
- What are you able to adapt in your own practice to meet the needs of the individual child?

Spend some time to make a vision statement and an action plan for language development work at your setting. What will you put into practice over the coming 6 to 12 months? Consider the following aspects when you are drawing up your vision statement and action plan:

- Adults as linguistic models
- Collaboration with parents on linguistic matters
- Everyday situations and the physical environment
- Working with themes, emphasis on linguistic factors
- Suggestions for observing and recording children's language
- Playtime to stimulate language
- How to stimulate children's language use

Adran 9: Enghreifftiau o ymarferion a gweithgareddau

Yma cewch eglurhad ac enghreifftiau o rai ymarferion a gweithgareddau ar gyfer pum agwedd wahanol ar ddatblygu ieithyddol:

- Ymwybyddiaeth iaith
- Termau ac enwi
- Trefnu
- Gêm cofio a chanolbwytio
- Disgrifio a dweud

Gellid defnyddio'r gweithgareddau hyn ynghyd â'r adrannau blaenorol. Yn adrannau 1 - 7 rydym wedi awgrymu pa weithgareddau o'r adran hon allai fod yn addas. Gellir eu defnyddio heb weithio ar yr adrannau blaenorol hefyd. Mae'r gweithgareddau ar gyfer plant 1-4 oed, gan ddefnyddio cardiau lluniau yn bennaf. Maent wedi'u dosbarthu'n gyffredinol yn unol ag oedrannau gwahanol, ond mae hefyd yn bwysig ystyried lefel iaith y plant wrth gynllunio'r gweithgareddau. Defnyddiwch a newidiwch y gemau fel eu bod yn teimlo'n ystyrlon ac yn hwyl ar gyfer y plant.



Section 9: Examples of exercises and activities

Here you will find explanations and examples of some exercises and activities for five different aspects of language development:

- Language awareness
- Terms and naming
- Sorting
- Memory and concentration
- Describing and telling

These activities could be used together with the preceding sections. In sections 1 – 7 we have suggested which activities from this section could be suitable. They can also be used without working on the previous sections. The activities are for children aged 1-4 years, and are mainly with picture cards. They are loosely classified according to various ages, but it is also important to consider the children's language level when planning the activities. Use and change the games so they feel meaningful and fun for the children.

Amser chwarae – Ymwybyddiaeth iaith

Mae bod yn 'ieithyddol ymwybodol' yn golygu y gall rhywun ddirnad ffurf a chynnwys iaith. Mae plant yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth ieithyddol pan fyddant tua phedair oed, ond gallant chwarae â ffurf iaith mewn ffyrdd gwahanol cyn hynny. Mae hyn yn cynnwys gwneud plant yn ymwybodol bod i eiriau ystyr, a bod iddynt seiniau penodol. Rhaid i blant feddu ar ymwybyddiaeth ieithyddol cyn y gallant ddysgu i ddarllen ac ysgrifennu.

Mae plant ifanc yn ymgyfarwyddo â ffurf iaith drwy chwarae ag odlau a rhythm. Mae canu ac adrodd rhigymau a hwiangerddi yn ffordd naturiol o ryngweithio gyda phlant. Mae plant yn mwynhau caneuon a hwiangerddi, ac mae'n hawdd ennyn eu diddordeb. Mae hyd yn oed babanod yn mwynhau gwrando ar hwiangerddi ac yn hoffi gweld hwiangerddi yn cael eu cyfleu drwy symudiadau dwylo neu'r corff. Mae clywed oedolion yn siarad, caneuon a hwiangerddi cymaint â phosibl yn helpu datblygiad ieithyddol plant.

Er mwyn datblygu ymwybyddiaeth ieithyddol, mae angen i blant allu stopio a gwrando'n astud a chanolbwyntio. Hyd yn oed gyda phlant sy'n iau na phedair oed, gallwch chwarae gemau a fydd yn sicrhau eu bod yn cynefino â gwrando ar seiniau gwahanol yn eu hamgylchedd, neu gynhyrchu'r seiniau hyn eu hunain. Gall curo dwylo, curo traed neu amneidio silliau yn enwau'r plant fod yn hwyl hefyd, a bydd yn eu helpu i deimlo rythm yr iaith drwy eu cyrff cyfan. Gemau lle rydych yn creu cyfansoddeiriau drwy gyfuno dau air i mewn i un (e.e. cell + oer = oergell) gan dynnu sylw plant at siâp geiriau yn ogystal â'u hystyr.

Playtime – Language awareness

Becoming 'linguistically aware' means that a person is able to distinguish the form and content of language. Children start to develop their linguistic awareness from around the age of four, but they can play around with the form of language in different ways even before that. Such ways include making children aware that words have meanings, and that they have particular sounds. Children must be linguistically aware before they can learn to read and write.

Young children familiarise themselves with the form of language by playing with rhyme and rhythm. Singing and reciting verses and nursery rhymes are a natural way of interacting with children. Children enjoy songs and nursery rhymes, and it is easy to get them interested. Even infants enjoy listening to nursery rhymes and like it when nursery rhymes are acted out with hand gestures or body movements. To hear adult speech, songs and nursery rhymes as much as possible helps to develop children's language.



In order to develop linguistic awareness, children need to be able to stop and listen in a concentrated way. Even with children under the age of four, you can play games that will make them accustomed to listening to different sounds in their surroundings, or making these sounds themselves. Clapping, stamping or nodding syllables in the children's names can also be fun and will help them to feel the rhythm of the language in their whole body. Games in which you create compound words by combining two words into one (e.g. book + shelf = bookshelf) draw children's attention to the shape of the words as well as their meaning.

Rhigymau, hwiangerddi a chaneuon

Diben y gêm hon yw sicrhau bod plant ifanc yn gyfarwydd â ffurf yr iaith drwy chwarae ag odlau a rhythm.

Canwch a darllenwch hwiangerddi gyda'r plant. Mae'n syniad defnyddio hwiangerddi a chaneuon lle gellir cynnwys enwau'r plant, a rhai sy'n ymdrin â phethau bob dydd yn y fan a'r lle fel rhannau o'r corff, dillad, lliwiau a theganau. Dylai fod gan y caneuon a'r hwiangerddi rhythm cryf a phatrwm odlau clir os yw'n bosibl. Mae'n syniad da dewis caneuon a hwiangerddi sy'n adnabyddus yn eich rhanbarth ieithyddol.

Rhai enghreifftiau o hwiangerddi: Gweler yr atodiad ar gyfer y geiriau.

Mr Hapus ydw i

Verses, nursery rhymes and songs

The purpose of this game is to familiarise young children with the form of the language by playing with rhyme and rhythm.

Sing and read nursery rhymes together with the children. Good nursery rhymes and songs to use are ones where you can insert children's names and ones that deal with everyday things in the 'here and now' such as parts of the body, clothing, colours, and toys. The songs and nursery rhymes should have a strong rhythm and, if possible, a clear rhyme scheme. It's a good idea to choose songs and nursery rhymes that are widely known in your linguistic region.

Some examples of nursery rhymes: See Annex for words.



Taflu'r Dis

Diben y gêm hon yw sicrhau bod plant ifanc yn gyfarwydd â ffurf yr iaith drwy chwarae ag odlau a rhythm.

Adnoddau:

- lluniau sy'n gysylltiedig â hwiangerddi a chaneuon
- tâp 'velcro' wedi'i osod ar gefn pob llun
- ciwb plastig mawr

Defnyddiwch chwe llun gan eu cysylltu â'r ciwb gyda'r tâp Felcro. Bydd plentyn yn taflu'r ciwb ar y llawr. Mae'n rhaid i'r plentyn gysylltu'r llun ar y ciwb gyda hwiangerdd neu gân. Bydd y plant yn cymryd tro i daflu'r dis ac yna'n canu'r gân. Gall yr ymarferwyr newid y llun pan fydd yn dewis cân wahanol.

"Throw the Dice" – Taflu'r Dis

The purpose of this game is to familiarise young children with the form of the language by playing with rhyme and rhythm.

Resources:

- pictures linked with nursery rhymes and songs
- 'velcro' tape placed on the back of each picture
- large plastic cube

Use six pictures and adjust them to the cube with the Velcro tape. A child throws the cube on the floor. The child has to link the picture on the cube with a nursery rhyme or song. The children in turn throws the dice and then sings the song. The practitioners can change the picture when he/she chooses for another song.

Rhigymau, hwiangerddi a chaneuon

Diben y gêm hon yw sicrhau bod plant yn gyfarwydd â ffurf yr iaith drwy chwarae ag odlau a rhythm.

Canwch a darllenwch hwiangerddi gyda'r plant. Mae'n syniad defnyddio hwiangerddi a chaneuon yn y sesiynau hyn lle gellir cynnwys enwau'r plant. Gall hwiangerddi hefyd gynnwys rhyfeddodau dymunol, sy'n ennyn diddordeb ac ysbrydoliaeth. Dylai fod gan y caneuon a'r hwiangerddi rhythm cryf a phatrwm odlau clir os yw'n bosibl. Mae'n syniad da dewis caneuon a hwiangerddi sy'n adnabyddus yn eich rhanbarth ieithyddol.

Dyma rai enghreifftiau o rigymau, hwiangerddi a chaneuon Cymraeg: Gweler yr atodiad ar gyfer y geiriau

Dau gi bach
Dacw Mam yn dwad
Gee Ceffyl Bach
Mynd drot drot



Verses, nursery rhymes and songs

The purpose of this game is to familiarise children with the form of the language by playing with rhyme and rhythm.

Sing and read nursery rhymes together with the children. Good nursery rhymes and songs to use in these sessions are ones in which you can insert children's names. Nursery rhymes can also include pleasant surprises, which create interest and inspiration. The songs and nursery rhymes should also have a strong rhythm and, if possible, a clear rhyme scheme. It's a good idea to choose songs and nursery rhymes that are widely known in your linguistic region.

Here are some examples of Welsh verses, nursery rhymes and songs: See annex for song words

Gêm odli

Nod y gêm hon yw cael plant i dalu sylw i'r ffordd y mae geiriau'n swnio.

Mae'r gêm hon yn fwyaf addas ar gyfer plant sy'n tynnu at bedair oed. Efallai na fydd ymwybyddiaeth iaith plant iau wedi'i datblygu'n ddigonol i sylwi ar ba eiriau sy'n odli. Gallwch ennyn chwilfrydedd plant hefyd drwy chwarae gyda rhyddmau o bryd i'w gilydd. Rhowch gynnig arni a gadewch i'r plant ddarganfod yr odlau eu hunain, heb eu holi.

Adnoddau:

- amryw gardiau gyda pharau o luniau sy'n odli
- bag
- adrannau mewn lliwiau gwahanol

Trafodwch beth yw odlau gyda'r plant. Rhowch rai enghreifftiau, a gwrandewch arnynt gyda'r plant e.e. bach/iach, cawr/mawr, moch/coch ac ati. Yn hytrach na chanu caneuon, weithiau mae'n syniad da adrodd rhigymau fel y gellir ynganu geiriau rhythmig e.e.

Rhyming game

In this game, the children pay attention to how words sound.

This game is best suited to children coming up to four years of age. Younger children may not have developed sufficient linguistic awareness to notice which words rhyme. You can also arouse children's curiosity by playing with rhymes from time to time. Try it out and let the children discover the rhymes for themselves, without pressing them.

Resources:

- a range of cards with pairs of pictures that rhyme
- a bag
- sections in different colours

Discuss with the children what it means when words rhyme. Give a few examples, and listen to them with the children e.g. mat/bat, ham/jam, moch/coch. Instead of singing songs, sometimes it is an idea to recite verses so that the rhythmic words can be pronounced e.g.

Mi welais Jac y DO
Yn eistedd ar ben TO
Het wen ar ei BEN
A dwy goes BREN
Ho! Ho! Ho! Ho! Ho! Ho!

Taenwch y cardiau lluniau nad oeddech wedi'u rhoi yn y bag ar y llawr a'u henwi gyda'r plant. Gofynnwch i'r plant gymryd cerdyn o'r bag, ac edrych am gerdyn llun ar y llawr sy'n odli. Enwch yr eitem yn y llun a gwrandewch gyda'r gilydd ar y geiriau sy'n odli â'i gilydd. Mae'n haws i'r plant ddilyn os ydych yn enwi'r lluniau un ar y tro: "Llygoden - pryf, na... llygoden - stryd, na... llygoden - llawen, IE!" Helpwch y plant a rhoi glod iddynt pan fyddant yn dod o hyd i'r gyfatebiaeth gywir. Bydd hyn yn gwneud i'r plant deimlo eu bod yn gwneud yn dda.

Gallwch amrywio'r gêm drwy daenu hanner y lluniau ar y llawr. Yna gorchuddiwch y lluniau un ar y tro gyda briciau o liwiau amrywiol, wrth eu henwi. Gallwch dynnu sylw'r plant at y lliwiau: "Rwy'n gosod bricsen goch ar y tŷ a bricsen las ar y gath..."; neu "ble ddylen i roi'r fricsen las?" neu "pa liw fricsen ddylen i ei roi ar y gath?" Yna taenwch hanner arall y lliwiau ar y llawr a'u henwi gyda'r plant. Yna gadewch i'r plant gymryd tro i godi bricsen ac yna enwi'r llun oddi tani a cheisio dod o hyd i gerdyn cyfatebol ymhlith y lluniau eraill. Helpwch bob plentyn fel y disgrifiwyd uchod.

Spread out the picture cards you didn't put into the bag and name them with the children. Ask the children to take a card from the bag, and to look for a picture card on the floor that rhymes. Name the items and listen together to words that go together. It's easier for the children to follow if you name the pictures one by one: "House – bug, no ... house – feet, no ... house – mouse, YES!" Help the children and praise them when they find the right match. This will make the children feel that they are doing well.

You can vary the game by spreading out half of the pictures on the floor. Then cover the pictures one by one with bricks of various colours, while naming them. You can draw the children's attention to the colours: "I'm putting a red brick on the house and a blue brick on the cat..."; or "where shall I put the blue brick?" or "what

colour brick shall I put on the mouse?" Then spread out the other half of the pictures on the floor and name them with the children. Let them take turns to pick up a brick then name the picture underneath it and try to find the matching card among the other pictures. Help each child as described above.



Amser Chwarae Enwi

Pan fyddwch yn chwarae gyda thermau ac enwau gyda phlant ifanc, gallwch gefnogi'r plant drwy gydnabod a nodi geiriau a thermau newydd yn gyntaf. Yna bydd y plant yn dysgu'r enwau cywir ar gof ac yn eu hintegreiddio yn eu geirfa. Wedyn bydd y plant yn gallu defnyddio'r geiriau yn rhwydd ac yn ddigymell. Mae angen i blant sy'n defnyddio'u hail iaith glywed geiriau newydd hyd at 60 o weithiau cyn iddynt eu cynnwys yn eu geirfa weithredol.

Bydd plant yn ei chael yn haws i ddysgu geiriau os ydynt yn chwarae rôl weithredol. Er enghraifft, gallant chwarae gyda gwrthrych neu gyflawni gweithgaredd y rhoddir enw iddo. Mae'n bwysig i blant ddysgu geiriau mewn ffyrdd amrywiol, gan ddefnyddio synhwyrdd gwahanol. Mae darllen yn uchel hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar eirfa plant, gan eu bod yn clywed geiriau na fyddent yn dod ar eu traws fel arall.

Mae llawer o ganeuon a hwiangerddi yn cyflwyno enwau newydd i'r plant. Mae caneuon a hwiangerddi yn cyflwyno ac yn chwarae gyda geiriau ac ymadroddion nad yw'r plant yn gyfarwydd â hwy eto. Gall y plant ddysgu i ddefnyddio'r geiriau a'r ymadroddion hyn drwy'r caneuon a'r hwiangerddi, a phan ddönt ar draws yr un geiriau ac ymadroddion mewn cyd-destunau eraill, byddant yn dod i ddeall eu hystyr yn raddol hefyd. Mae'n syniad da dewis caneuon a hwiangerddi sy'n adnabyddus yn eich rhanbarth ieithyddol.

Playtime Naming

When you're playing with terms and names with young children, you can support the children by first recognising and identifying new words and terms. Then the children will memorise the correct names and integrate them into their vocabulary. Later, the children will be able to use the words freely and spontaneously. Children using their second language need to hear new words up to 60 times before they include them in their active vocabulary.

Children find it easier to learn words if they take an active role. For example, they can play with an object or do an activity which is given a name. It is important for children to learn words in a varied way, with different senses engaged. Reading aloud also has a positive effect on children's vocabulary, because they hear words they would not otherwise come into contact with.



Many songs and nursery rhymes introduce the children to new words. Songs and nursery rhymes introduce and play around with words and expressions that the children are not yet familiar with. The children can learn to use those words and expressions through the songs and nursery rhymes, and when they encounter the same words and

expressions in other contexts, they will gradually learn the meaning of them. It's a good idea to choose songs and nursery rhymes that are widely known in your linguistic region.

'Y bag dirgel'

Diben y gêm hon yw cefnogi'r plant i adnabod a nodi geiriau a thermau newydd. Yna bydd y plant yn dysgu'r enwau cywir ar gof ac yn eu hintegreiddio yn eu geirfa.

Adnoddau:

- set o luniau
- set o wrthrychau tebyg

Yn ddelfrydol, gallai'r eitemau fod yn rhai cyfarwydd o hwiangerddi a chaneuon a ddefnyddiwyd gennych yn ystod yr amser chwarae ymwybyddiaeth iaith.

Gosodwch y lluniau mewn bag a rhowch un gwrthrych i bob plentyn. Cymerwch un llun allan o'r bag a dywedwch ei enw: 'Mae ceffyl gyda fi'. Pwy sydd â'r ceffyl?

Bydd y plentyn sydd â gwrthrych tebyg yn ei ddal i fyny ac yn ailadrodd gyda chi 'Mae ceffyl gyda fi'. Gosodwch y llun a'r gwrthrych ar y llawr lle gall pawb eu gweld. Bydd y plant yn canu 'Gee ceffyl bach'. Unwaith i chi edrych ar yr holl luniau a gwrthrychau, a chanu'r caneuon sy'n gysylltiedig â'r llun, gall y plant helpu i'w rhoi nôl yn y bag ac enwi pob eitem wrth ei roi yn y bag.

Os yw'r plant yn gyfarwydd â'r geiriau, yna gallwch ofyn iddynt roi'r gwrthrychau yn y bag fel a ganlyn: Gall Anna fynd â'r bêl, gall Osian fynd â'r ceffyl... Yn ystod y gweithgaredd hwn dylech siarad am yr eitemau, gan dalu sylw i ddiddordebau'r plant, cwblhau brawddegau'r plant, ailadrodd y geiriau a'u defnyddio yn eich sgwrs.

'The secret bag'

The purpose of this game is to support the children to recognize and identify new words and terms. Then the children will memorise the correct names and integrate them in their vocabulary.

Resources:

- set of pictures
- set of similar objects

Ideally the items could be familiar from nursery rhymes and songs that you used during playtime called language awareness.

Place the pictures in a bag and hand out one object to each child. Take one picture out of the bag and state its name: 'Mae ceffyl gyda fi' (I've got a horse). Pwy sydd â'r ceffyl? (Who's got the horse?)

The child who has a similar object holds it up and repeats with you 'Mae ceffyl gyda fi' (I've got the horse): Put the picture and the object on the floor where everyone can see it. The children sing the song 'Gee ceffyl bach'. Once you have looked at all of the pictures and objects, and sang the songs linked with the picture, the children can help to put them back into the bag and name each item as it is put into the bag.

If the children are familiar with the words, then you can ask them to put the objects in the bag as following: Anna may take the ball, Osian can take the horse... During the activity you should talk about the items, pay attention to children's interests, fill out the children's sentences, repeat the words and use them in your conversation.

Pysgota

Nod y gêm hon yw cael y plant i enwi geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Wrth i chi edrych ar y lluniau a siarad amdanynt, caiff y plant gyfle i nodi manylion a disgrifio'r lluniau.

Adnoddau:

- gwialen bysgota (ffon, cortyn, maged)
- lluniau o anifeiliaid, bwyd a/neu wrthrychau cyffredin ac eitemau cyfatebol
- pysgod cardbord o liwiau gwahanol
- clipiau papur

Gwnewch wialen bysgota gan ddefnyddio ffon a gludiwch faged bach wrth un pen o ddarn o gortyn a chlymwch ben arall y cortyn i ben y ffon. Tynnwch lluniau neu defnyddiwch gardiau parod sydd ar gael ar y rhyngwyd. Torrwch siapiau'r pysgod, gludiwch y lluniau arnynt a rhowch glip papur ar bob pysgodyn.

Gwasgarwch y pysgod ar y llawr, gyda'r lluniau'n wynebu ar i lawr. Gadewch i'r plant gymryd tro i 'bysgota' am bysgodyn gyda'ch help chi, ac enwi'r llun. Yna edrychwch ar y lluniau gyda'r plant, gan ddisgrifio'r lluniau a'u trafod. Gallwch enwi'r lliwiau hefyd.

Pan fyddwch wedi gorffen y gêm, gallwch ganu caneuon neu adrodd hwiangerddi sy'n gysylltiedig â'r lluniau. Gallwch hefyd ddefnyddio caneuon a hwiangerddi o sesiynau blaenorol.

Gallwch amrywio'r gêm drwy guddio'r eitemau yn yr ystafell a gadael i'r plant ddod o hyd iddynt gan ddefnyddio eich cliwiau.

Fishing

The idea of this game is to get the children to name familiar words and expressions. As you look at the pictures and talk about them, the children have an opportunity to identify details and describe the pictures.

Resources:

- a fishing rod (stick, string, magnet)
- pictures of animals, food and/or everyday objects and corresponding items
- fish in cardboard in different colours
- paper clips

Make a fishing rod from a stick and glue a small magnet onto one end of a string and fasten the other end of the string onto the end of the stick. Paint pictures or use ready-made cards which can be found on Internet. Cut the fish, glue the pictures on them and attach a paper clip on each fish.

Spread out the fish on the floor, with the picture sides facing down. Have the children take turns to 'fish' for a fish with your help and name the picture. Then look at the pictures together with the children, describe the pictures and discuss them. You can also name the colours.

When you have finished the game, you can sing songs or recite nursery rhymes related to the pictures. You can also use songs and nursery rhymes from previous sessions.

You can vary the game by hiding the items in the room and let the kids find them by using your clues.

Rhannau'r corff

Diben y gêm hon yw dysgu'r geiriau ar gof a'u hintegreiddio i mewn i eirfa'r plant. Bydd y plant yn dysgu geiriau newydd ac yn dechrau defnyddio geiriau cyfarwydd.

Dechreuwch gyda hwiangerddi a chaneuon am y corff. Gallwch ddefnyddio'r un caneuon a hwiangerddi â'r sesiwn ymwybyddiaeth iaith os ydynt yn addas.

Adnoddau:

- dol o faint canolig neu "dedi bêr"
- cês neu flwch, a blanced neu glustog dol
- plasteri glyn (yr un nifer â nifer y plant yn y grŵp)

Tynnwch y ddol allan o'r cês neu flwch a soniwch amdani wrth y plant: beth yw enw'r ddol, beth mae hi'n ei hoffi, ble mae hi'n byw, ac ati. Yna dywedwch wrth y plant fod angen rhywfaint o'u help arni, gan ei bod wedi brifo ei hun. Mae'r ddol yn dweud "aww, aww" ac yn sibwrdd i chi "ble mae'n brifo". Dywedwch wrth y plant pa ran o gorff y ddol sy'n brifo, a bydd y plant yn dod atoch un ar y tro i roi plastr ar y ddol gyda chi. Yna gallwch gusanu'r rhan o'r corff tan ei bod yn well ac enwi'r rhan o'r corff eto. Ailadroddwch hyn gyda phob plentyn. Pan fydd pob plentyn wedi helpu i roi plastr ar y ddol, mae hi'n hapus ac yn dweud wrthyh nad yw'n brifo bellach. Yna gallwch roi'r ddol i gysgu yn y cês.

Ar ôl chwarae'r gêm hon gallech ganu "Pen, ysgwyddau, coesau, traed..."

Os nad oes gennych ganiatâd i ddefnyddio plasteri, gallwch chwarae'r gêm drwy ofyn i'r ddol ble y mae'n brifo a chwythu ar y manau hynny. Posiblwydd arall yw torri sribedi o rwyllan a'u clymu ar y rhan o gorff y ddol sy'n brifo.

Parts of the body

The purpose of this game is to memorise the words and integrate them into the children's vocabulary. The children will both learn new words and start to use familiar words.

Start with some nursery rhymes and songs about the body. You may use the same songs and nursery rhymes as in the session, language awareness, if they fit.

Resources:

- a medium-sized doll or a "teddybear"
- a suitcase or box, and a doll's blanket or pillow
- sticking plasters (as many as there are children in the group)

Take the doll out of the suitcase or box and tell the children a bit about it: what the doll's name is, what she likes, where she lives, etc. Then tell the children that the doll needs a bit of help from them, because she has hurt herself. The doll says, "Owie, owie" and whispers to you "where it hurts". You tell the children which body part the doll told you is hurting, and the children come up one at a time to put a plaster on the doll with you. Then you can kiss the body part better and name the body part again. Repeat this with all of the children. When all of the children have helped to put a plaster on the doll, she is happy and says that she doesn't hurt anymore. And then you can put the doll to bed in the suitcase.

After playing this game you could sing the song "Pen, ysgwyddau, coesau, traed..."

If the use of plasters isn't allowed, you can play the game by just asking the doll where it hurts and blow on that place. Another possibility is to cut strips of gauze and tie them on the body where the doll is in pain.

Gêm "Bîp" gyda lluniau

Diben y gêm hon yw dysgu'r geiriau ar gof a'u hintegreiddio i mewn i eirfa'r plant. Bydd y plant yn dysgu geiriau newydd ac yn dechrau defnyddio geiriau cyfarwydd.

Adnoddau:

- 10 llun ar gardiau, yn ddelfrydol yn darlunio geiriau o hwiangerddi a chaneuon
- 10 bloc

Rhowch y cardiau ar y llawr gyda'r lluniau'n wynebu i fyny. Gosodwch floc ar bob llun, a dywedwch enw'r gwrthrych ym mhob llun ar y cyd â'r plant. Bydd y plant yn cymryd tro i adael yr ystafell, tra bod gweddill y grŵp yn dewis ac yn cytuno ar un llun i 'feddwl amdano'. Unwaith y bydd y grŵp wedi cytuno ar lun, bydd y plentyn sydd wedi gadael yr ystafell yn dychwelyd ac yn dechrau codi'r blociau un ar y tro. Bydd pawb yn enwi'r gwrthrych ym mhob llun wrth i'r plentyn godi bloc. Pan ddaw'r plentyn i'r llun o'r gwrthrych a ddewiswyd gan y grŵp, bydd pawb yn dweud "bîp", ac yna tro plentyn arall yw hi.



"Beep" game with pictures

The purpose of this game is to memorise the words and integrate them into the children's vocabulary. The children will both learn new words and start to use familiar words.

Resources:

- 10 pictures on cards, ideally illustrating words from nursery rhymes and songs
- 10 blocks

Spread out the cards on the floor with the picture sides facing up. Place a block on each picture, and say the name of the object in each picture together with the children. The children then take turns to leave the room, while the rest of the group select and agree on one picture to 'think about'. Once the group have agreed on a picture, the child who had left the room returns and he starts to pick up the blocks one by one. Everyone names the object in each picture as the child picks up a block. When the child comes to the picture of the object the group has chosen, everyone says "beep", and it is another child's turn.

Labelu'r lleoliad gofal dydd

Diben y gêm hon yw sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r geiriau o'u hamgylch ac ehangu eu geirfa weithredol.

Adnoddau:

Os yw eich lleoliad yn defnyddio geiriau i labelu gwrthrychau, gallwch wneud labeli gyda'r plant ac arnynt enwau darnau o ddodrefn, waliau, y llawr a'r nenfwd a gwrthrychau eraill yn yr ystafell, a'u gosod ar yr eitemau ar y cyd â'r plant. Gadewch y labeli yn eu lle drwy gydol y flwyddyn. Er nad yw'r plant yn gallu darllen eto, bydd y labeli yn ysgogi cwestiynau a thrafodaethau.

Label the day care

The purpose of this game is to make the children aware of the words around them and to expand their active vocabulary.

Resources:

If your setting is using words to label objects you could make labels with the children, with the names of pieces of furniture, walls, the floor and ceiling and other objects in the room and attach them to the items together with the children. Leave the labels in place throughout the year. Even though the children cannot read yet, the labels will stimulate questions and discussions.



Amser Chwarae Trefnu

Pan fyddwch yn trefnu geiriau yn categorïau, rydych yn helpu'r plant i ehangu a rhoi trefn ar eu geirfa. Mae gemau trefnu yn helpu plant i ddeall ac amgyffred ystyr geiriau. Gall plant hefyd ddysgu y gellir trefnu geiriau yn categorïau mwy cyffredinol a mwy penodol. Er enghraifft, maent yn dysgu bod cadair a bwrdd yn fathau o ddodrefn. Mae trefnu hefyd yn cefnogi ac yn ehangu eu sgiliau cofio.

Dangosodd ymchwil fod perthynas rhwng 'ffrwydrad geirfa' a gallu plant i gategoreiddio. Mae ffrwydrad geirfa o'r fath, sef y cyfnod pan fydd plant yn dysgu nifer fawr o eiriau newydd, yn digwydd pan fyddant tua dwy oed. Os ydych yn defnyddio gemau trefnu mae'n beth da defnyddio lluniau a gwrthrychau i helpu'r plant i drefnu.

Yn y gweithgareddau hyn ar gyfer plant 1 - 2 oed, byddwch yn gweithio gyda'r termau 'mawr' a 'bach' gan fod y termau hyn yn glir ac yn ddealladwy i blentyn bach. Gallwch ddechrau drwy ganu caneuon neu ddarlennu hwiangerddi sy'n egluro'r termau hyn. Yna gallwch enwi a rhoi trefn ar wrthrychau gan ddefnyddio lluniau. Yn y gweithgareddau ar gyfer plant 3 -4 oed gallwch drefnu lluniau o wrthrychau i mewn i dri chategori gwahanol ac yna chwarae 'pa un sy'n wahanol' gyda'r gwrthrychau.



Playtime Sorting

When you sort words into categories, you help the children to expand and organise their vocabulary. Sorting games help children to understand and comprehend the meaning of words. Children also learn that words can be sorted into more general and more specific classes. For example, they learn that a chair and a table are types of furniture. Sorting also supports and expands their memory skills.

Research has shown that there is a relationship between the 'vocabulary explosion' and children's ability to categorise. This vocabulary explosion, the phase in which children learn a very large number of new words, occurs around the age of two. If you do use sorting games it's good to use both pictures and objects to help children to sort.

In these activities for children aged 1- 2 years, you will work with the terms 'big' and 'small', because these are terms that are clear and comprehensible to a small child. You could begin by singing songs or reading nursery rhymes that explain the terms. Then you can name and sort objects using pictures. In the activities for children aged 3-4-years you can sort pictures of objects into three different categories and then play 'odd one out' with the objects.

Mawr a bach

Diben y gêm hon yw cyflwyno'r cysyniad o drefnu, a sut i drefnu geiriau yn gategorïau gwahanol gyda'r plant. Yn y gêm hon byddwn yn gweithio gyda'r termau 'mawr' a 'bach' gan fod y termau hyn yn glir ac yn ddealladwy i blentyn bach.

Gallwch ddechrau drwy ganu caneuon neu ddarllen hwiangerddi sy'n egluro'r termau hyn. Yna gallwch enwi a rhoi trefn ar wrthrychau gan ddefnyddio lluniau. Dewiswch rai caneuon sy'n disgrifio neu'n sôn am rywbeth mawr a rhywbeth bach.

Rhai enghreifftiau o ganeuon:

Big and small

The purpose of this game is to introduce the concept of sorting, and how to sort words into different categories with the children. In this game we will work with the terms 'big' and 'small', because they are clear and comprehensible to a small child.

You could begin by singing songs or reading nursery rhymes that explain the terms. Then you can name and sort objects using pictures. Choose some songs that describe or talk about something big and something small.

Some examples of songs:

Mr Mawr ydw i ydw i Mr Bach ydw i ydw i

Adnoddau:

- lluniau o wrthrychau mawr a bach y mae'r plant yn gyfarwydd â hwy,
- set o wrthrychau tebyg
- bag
- blwch bach
- blwch mawr

Resources:

- pictures of big and small objects that are familiar to the children,
- a set of similar objects
- a bag
- a small box
- a large box

Dangoswch y lluniau, un ar y tro, i'r plant, a rhowch enwau iddynt gyda'r plant. Wrth i chi roi enw i lun, tynnwch (neu gofynnwch i un o'r plant dynnu) y gwrthrych sy'n cyfateb i'r llun allan o'r bag a'i osod ar y llawr lle gall pawb ei weld. Pan fydd yr holl wrthrychau wedi'u tynnu allan o'r bag, gosodwch flwch bach a blwch mawr ar y llawr. Yna gall y plant gymryd tro i gymryd llun o'ch dwylo, rhoi enw iddo a dod o hyd i'r gwrthrych cyfatebol ar y llawr. Penderfynwch p'un a yw'r gwrthrych yn fawr neu'n fach. Bydd y plant yn rhoi'r gwrthrychau bach i mewn i'r blwch bach a'r gwrthrychau mawr i mewn i'r blwch mawr. Gellir chwarae'r gêm hon gyda phlant 2-3 oed gan ddefnyddio lliwiau yn ogystal â gwrthrychau bach a mawr, er enghraifft pêl goch fawr a phêl felen fach.

Show the pictures, one by one, to the children and name them together with the children. As you name a picture, take (or have one of the children take) the object that matches the picture out of the bag and place it on the floor where everyone can see it. When all of the objects have been taken out, place a small box and a large box on the floor. The children can then take turns to take a picture from your hand, name it and find the matching object on the floor. Then decide together whether the object is big or small. The children then put the small objects into the small box and the big objects into the large box. This game can be played with 23 year old children by using colours as well as small and large objects for example a big red ball and a small yellow ball



Tri chategori

Diben y gêm hon yw cyflwyno'r cysyniad o drefnu geiriau yn gategorïau gwahanol, a sut i wneud hynny. Yn y gêm hon byddwn yn trefnu lluniau o wrthrychau yn dri chategori.

Adnoddau:

- lluniau o eitemau o dri chategori gwahanol, er enghraifft anifeiliaid, dillad a ffrwythau.
- tri blwch gyda chloriau

Dylai'r lluniau yn y gêm hon ddangos gwrthrychau y mae'r plant yn gyfarwydd â hwy. Bydd angen o leiaf cynifer o luniau ag sydd o blant yn y grŵp, ac un llun ychwanegol ar gyfer pob blwch. Gosodwch y tri blwch ar y llawr o flaen y plant. Dylai pob blwch gynnwys un llun o bob categori a osodwyd yno gennych yn gynharach. Ar y cyd â'r plant, agorwch bob blwch ac edrychwch i weld beth sydd y tu mewn. Enwch y gwrthrych yn y llun a'i osod o flaen y blwch, fel y gall plant ei weld. Yna codwch y pentwr o luniau o wrthrychau sy'n perthyn i'r categorïau hyn. Mae'r plant yn cymryd tro i ddewis llun, enwi'r gwrthrych yn y llun a'i roi yn y 'blwch cywir'. Bydd hyn yn rhoi digon o gyfle i drafod. Pan fydd pob un o'r lluniau wedi'u gosod yn y blychau, tynnwch y lluniau allan o'r blychau yn eu tro, gan drafod y categorïau gyda'r plant ac enwi'r gwrthrychau yn y lluniau gyda'ch gilydd.

Gellir hefyd gysylltu'r gêm hon â lluniau o dair siop - siop anifeiliaid anwes, siop ddillad a siop ffrwythau - bydd y plant yn trefnu'r lluniau yn ôl ble y gellir prynu'r cynnyrch. Defnyddiwch dri chylch yn hytrach na defnyddio'r blychau.

Three categories

The purpose of this game is to introduce the concept of sorting, and how to sort words into different categories. In this play we sort pictures of objects into three different categories.

Resources:

- pictures of items from three different categories, for example animals, clothing and fruit.
- three boxes with lids

The pictures in this game should depict objects that are familiar to the children. You will need at least as many pictures as there are children in the group, plus one additional picture for each box. Place the three boxes on the floor in front of the children. Each of the boxes should contain one picture from each of the categories which you placed there earlier. Together with the children, open up each box and look inside. Name the object in the picture and place it in front of the box, so the children can see it. Then pick up the stack of pictures of objects that belong in these categories. The children take turns to choose a picture, name the object on it and place it in the 'right box'. This will provide plenty of opportunity for discussion. When all of the pictures have been placed in the boxes, take the pictures out of the boxes in turn, discuss the categories with the children and name the objects in the pictures together.

This game can also be linked with pictures of three shops – a pet shop, a clothes shop and a fruit shop – the children sorts the pictures according to where they buy the product. Using three hoops instead of using the boxes

Pa un sy'n wahanol?

Diben y gêm hon yw cyflwyno'r cysyniad o drefnu, a sut i drefnu geiriau i mewn i gategorïau gwahanol a deall pa eitem nad yw'n addas ar gyfer y categori.

Adnoddau:

- gwrthrychau sy'n cyfateb i'r lluniau yn y gêm flaenorol
- tri bag

Cyn i chi ddechrau'r gêm hon, rhowch y gwrthrychau i mewn i'r bagiau. Gosodwch bob gwrthrych ond un sy'n perthyn i'r un categori i mewn i bob bag. Pan fyddwch yn dechrau'r gêm, dosbarthwch y bagiau i'r plant mewn paru neu grwpiau a gofynnwch iddynt gymryd y gwrthrychau allan o'r bagiau a thrafod pa wrthrych nad yw'n perthyn i'r grŵp. Yna gall y plant enwi'r gwrthrychau gyda chi, mewn paru neu mewn grwpiau, a dweud wrth y plant eraill pa wrthrych sy'n wahanol a pham.

Which one's the odd one out?

The purpose of this game is to introduce the concept of sorting, and how to sort words into different categories and to understand which item doesn't suit the category.

Resources:

- objects that match the pictures in the previous game
- three bags

Before you begin this game, place the objects into the bags. Place objects that all belong to the same category, except one, into each bag. When you begin the game, distribute the bags to the children in pairs or groups and have them take the objects out of the bags and discuss together which object doesn't belong in the group. Then the children can name the objects together with you, in pairs or in groups, and tell the other children which object is the odd one out and why.

Amser chwarae cofio a chanolbwyntio

Mae sgiliau cofio a chanolbwyntio yn allweddol o ran datblygiad ieithyddol plant. Pwrpas ein prif gof yw prosesu a storio gwybodaeth. Y prif gof sy'n effeithio ar sut mae plant yn dysgu iaith. Mae ein prif gof ond yn storio gwybodaeth dros dro, ein cof hirdymor sy'n ei storio'n fwy parhaol. Ein cof hirdymor yw lle y caiff rheolau gramadeg, geirfa a gwybodaeth arall eu storio. Gall y cof hirdymor helpu plentyn pan fydd yn gwrando ar stori, er enghraifft. Er mwyn deall y stori, mae'r plentyn yn defnyddio profiadau a gwybodaeth flaenorol, yn ogystal â geiriau cyfarwydd a rheolau gramadegol.

Mae ein gallu i ganolbwyntio yn effeithio ar ein prif gof ac felly'n effeithio ar ddatblygiad ieithyddol. Er mwyn datblygu eu hiaith, mae'n rhaid i blant allu canolbwyntio ar wrando'n astud, yn cynnwys cymryd rhan mewn sgysiau, clywed a deall cyfarwyddiadau, gwrando ar straeon a chwedlau tylwyth teg, ac ati. Mae canolbwyntio hefyd yn bwysig mewn cyd-destunau eraill, megis dysgu iaith. Mae angen i'r plentyn allu gwahaniaethu rhwng seiniau hir a seiniau byr ac anwybyddu seiniau nad ydynt yn bwysig.



Playtime Memory and concentration

Memory and concentration skills are crucial for a child's language development. The job of our primary memory is to process and store information. It is the primary memory that affects how children learn language. Our primary memory stores information only temporarily, whereas our long-term memory stores it more

permanently. Our long-term memory is where grammar rules, vocabulary and other knowledge are stored. The long-term memory can help a child when he or she is listening to a story, for example. In order to understand the story, the child draws on previous experiences and knowledge, as well as familiar words and grammar rules.

Our ability to concentrate affects our primary memory and therefore our language development. In order to develop their language, children must be able to concentrate on listening actively, including participating in conversations, hearing and understanding instructions, listening to stories and fairy tales etc. Concentration is also important in other contexts, such as language learning. The child needs to be able to distinguish between long and short sounds and exclude unimportant sounds.

Blwch straeon

Diben hyn yw cyflwyno stori y gall y plant ei dysgu ar eu cof gan ddefnyddio'r gwrthrychau ar gyfer y stori

Dewiswch stori sy'n cynnwys ailadrodd yn y plot ac ailadrodd geiriau neu ymadroddion. Mae plant ifanc hefyd yn hoffi straeon am bethau bob dydd sy'n gyfarwydd iddynt - pethau maent yn eu hadnabod. Gall hyn hefyd gynnwys anifeiliaid y gallwch eu dynwared yn ystod y stori.

Stori: Sali Mali

Adnoddau:

- Sali Mali
- Cadair
- Ffenestr
- Gwely
- Bwrdd
- Jac y Do (llun o Jac y Do)
- Tŷ bychan (neu lungopi o'r tŷ yn y stori)
- Blwch gyda chlwr, sy'n ddigon mawr i ddal yr holl wrthrychau

Gosodwch yr adnoddau mewn blwch a'u gorchuddio gyda chlwr. Mae'n gyffrous i'r plant pan fyddwch yn agor y caead i ddechrau'r stori. Adroddwch y stori drwy dynnu'r gwrthrychau allan o'r blwch i actio'r stori.



Story box

The purpose of this is to introduce a story that the children can memorise by using the props for the story.

Choose a story that includes repetition in the plot and repetition of words or phrases. Young children also like stories about everyday things that are familiar to them – things they recognise. This can also include animals that you can imitate during the story.

A story: Sali Mali

Resources:

- Sali Mali
- Chair
- Window
- Bed
- Table
- Jac y Do (picture of a Raven)
- A little house (or a photocopy of the house in the story)
- A box with a lid, large enough to hold all the props

Place the resources in a box and cover with a lid. Children find it exciting when you open the lid to begin the story. Tell the story by taking the props out of the box to act it out.

Rhowch y gwrthrychau a ddefnyddiwyd wrth adrodd y stori i'r plant.

Pwy sydd â llun o Sali Mali?

Pwy sydd â'r Gadair?

Pwy sydd â'r gwely?

Hand out the objects you used to tell the story.

Who's got a picture of Sali Mali?

Who's got the Chair?

Who's got the bed?

Ar ôl yr ymarfer, gellir rhoi'r gwrthrychau nôl yn y blwch.

Dysgwch y stori ar gof

Adnoddau:

- gwrthrychau ar gyfer y stori uchod
- blwch ar gyfer y gwrthrychau

Ar y cam hwn nid yw'r plant yn ailadrodd y stori; maent ond yn helpu eu hunain i gofio'r stori drwy drafod y lluniau. Wrth i'r plant ymgynffwrdd â'r stori, byddant yn gallu dysgu'r digwyddiadau ar gof drwy ateb y cwestiwn "Ble mae Sali Mali yn byw?" "Beth yw tŷ Sali Mali?" "Ble mae Jac Do?"



After the exercise, the objects can be replaced in the box.

Memorise the story

Resources:

- props for the story above
- box for props

At this stage the children are not retelling the story; they are simply helping themselves to remember the story by discussing the pictures. As the children familiarise themselves with the story, they will be able to memorise the events simply by answering the question "Where does Sali Mali live?" "What is Sali Mali's house?" "Where is Jac Do?"

Gêm cuddio gyda dillad

Diben y gemau hyn yw integreiddio termau drwy gemau cofio a chanolbwyntio.

Dechreuwch gyda gêm holi ac ateb lle rydych yn cyflwyno'r dillad a ddefnyddir gennych yn y gemau dilynol. Eisteddych ar y llawr gyda'r plant mewn cylch. Wrth i chi chwarae'r gêm hon, gallwch ganu "Ble mae'r het?" (i alaw "Frere Jacques") Gallwch gynnwys y lluniau o ddillad gwahanol yn y gân.

Adnoddau:

- o leiaf pum dilledyn, maint plant yn ddelfrydol
- lliain bwrdd

Gosodwch y dillad ar y llawr un ar y tro a'u henwi, ar y cyd â'r plant. Gosodwch lliain bwrdd dros y dillad a thynnwch un dilledyn ymaith, heb adael i'r plant weld pa un. Yna symudwch y lliain bwrdd ymaith a gofynnwch i'r plant geisio cofio pa dilledyn sydd ar goll. Gallwch amrywio ar y gêm hon drwy osod tri neu bedwar dilledyn mewn rhes ac yna cyfnewid dau ohonynt, heb adael i'r plant weld pa rai a symudir. Gofynnwch i'r plant ddyfalu pa ddillad sydd wedi newid lle. Gallwch hefyd orchuddio'r holl ddillad ac yna ceisio cofio beth sydd o dan y lliain bwrdd.

Gallwch hefyd defnyddio lluniau eraill o anifeiliaid, bwyd, siapiau, cerbydau ac ati, gan ddefnyddio'r un syniadau.

Hiding game with clothes

The purpose of these games is to integrate terms by means of memory and concentration games.

Begin with a question-and-answer game in which you introduce items of clothing which you will use in the games to follow. Sit on the floor with the children in a circle. As you play this game, you can sing the song "Ble mae'r het?" (to the tune of "Frere Jacques") You can fit the different pictures of clothes into the song.

Resources:

- at least five items of clothing, preferable in children's sizes
- a tablecloth

Lay the items of clothing on the floor one at a time and name them, together with the children. Lay a tablecloth over the clothes and remove one item, without letting the children see which one. Then remove the cloth and have the children try to remember which item of clothing is missing. You can vary this game by placing three or four items of clothing in a row and then swap two of them around, without letting the children see which ones. Have the children guess which items of clothing have swapped places. You may also cover all clothes and then try to remember what's under the tablecloth.

You may also use other pictures, of animals, food, shapes, vehicles etc, using the same ideas.

Rhoi'r dillad ar y lein i sychu

Diben y gêm hon yw integreiddio termau drwy gemau cofio a chanolbwyntio.

Adnoddau:

- Dillad a lluniau cyfatebol (yr un nifer â nifer y plant yn y grŵp)
- Basged
- Lein ddillad
- Pegiau dillad

Cyn i chi ddechrau'r gêm, rhowch y lein ddillad yn yr ystafell fel y gall y plant ei chyrraedd. Dangoswch y lluniau i'r plant un ar y tro, gan enwi'r eitemau yn y lluniau gyda'r gilydd a gosodwch y lluniau yn wynebu ar i lawr. Yna codwch ddilledyn o'r fasged a gofynnwch i'r plant geisio cofio ble mae'r llun o'r dilledyn hwnnw. Pan fydd plentyn wedi dod o hyd i'r llun cyfatebol, dywedwch enw'r dilledyn a helpwch y plentyn i hongian y dilledyn 'i sychu'.

Gellir amrywio a datblygu'r gêm hon yn hawdd yn unol â sgiliau ieithyddol y plant. Gadewch i'r plant dynnu'r dillad i lawr o'r lein a'u henwi os ydynt yn dymuno. Cyn hyn, gallwch edrych ar y dillad gyda'r gilydd, wrth i chi ofyn cwestiynau, e.e. pa ddilledyn sydd rhwng, neu nesaf at neu i'r dde o un o'r dillad eraill. Mae rhai dillad yn fwy cyfarwydd nag eraill, felly dewiswch y dillad yn unol â'r plant sy'n cymryd rhan.

Hang the washing out to dry

The purpose of this game is to integrate terms by means of memory and concentration games.

Resources:

- Items of clothing and matching pictures (the same number of items as there are children in the group)
- Basket
- Clothesline
- Clothes pegs

Before you begin the game, put up the clothesline in the room on the children's level. Show the children the pictures one at a time by naming the items in the pictures together and laying them face down. Following this, pick up an item of clothing from the basket and have the children try to remember where the picture of that item is. When a child has found a match, say the name of the item of clothing and help the child hang up the item 'to dry'.

This game can easily be varied and developed according to the children's language skills. Let the children take the clothes down and name them if they like. Before this, you can look at the clothes together, while you ask which garment is e.g. between, next to or to the right of one of the other garments. Some garments are more familiar than others, so choose the clothes according to the children taking part.

Amser chwarae – Dweud a disgrifio

Mae plant yn dysgu'r iaith a ddefnyddiant eu hunain. Dyna pam fod angen i ni roi'r cyfle i blant bach hyd yn oed gael mynegi eu hunain mewn ffyrdd gwahanol a dyfeisio straeon. Er mwyn disgrifio ac adrodd straeon, mae angen geirfa weithredol ar blant. Felly ceir cysylltiad clir rhwng datblygu geirfa a'r gallu i ddisgrifio ac adrodd straeon. Un ffordd ymarferol o ysbrydoli plant bach i adrodd straeon yw defnyddio blychau straeon.

Mae 'blychau straeon', sef amser stori gyda chymhorthion gweledol, yn rhyw fath o gynrychiadau theatr ar raddfa fach gan ddefnyddio doliau neu bypedau. Pan gyflwynir stori mewn tri dimensiwn, fel cynhyrchiad theatr bach, caiff y digwyddiadau eu hactio gan ffigurau bach, y mae adroddwr y stori yn eu symud o amgylch wrth adrodd y stori. Mae hyn yn gwneud y stori'n ddiddorol i blant ifanc. Cyflwynir ffigurau corfforol i'r plant sy'n ennyn eu diddordeb. Mae'r 'blwch stori' yn creu cyffro, ac mae'r syniad bod y stori'n byw yn y blwch yn swynol.

I blant ifanc, mae ailadrodd yn golygu cydnabyddiaeth a diogelwch. Mae plant ifanc wrth eu bodd yn clywed yr un stori dro ar ôl tro. Dros amser, maent yn dysgu ystyr y geiriau, ynganu a gramadeg, cysrawen a'r stori ei hun. Mae stori sydd â strwythur dramatig clir ac sy'n cynnwys ailadrodd yn ei gwneud yn haws i blant gofio'r plot a'i ddilyn.

Pan fydd plant yn gyfarwydd â chwarae gyda straeon sy'n seiliedig ar flychau stori, yn aml cânt eu hysbrydoli i greu eu straeon eu hunain. Mae sawl ffordd o ddatblygu ar sail hyn. Er enghraifft, gallwch annog y plant i greu eu straeon eu hunain a'u hadrodd mewn ffyrdd gwahanol; gyda theatr bwrdd, pypedau maneg, ffigurau pren, lluniau neu ddramâu bach lle mae'r plant yn gwisgo amdanynt, ac ati. Gadewch i'r plant dynnu lluniau o'u straeon a'u datblygu gyda chi yn y 'babell straeon' i'w rhannu gyda'u cyd-ddisgyblion. Gallwch hefyd ffilmio perfformiadau o blant yn adrodd eu straeon, ac yna eu dangos i'w rhieni.

Playtime – Telling and describing

Children learn the language that they use themselves. That is why we need to give even small children the chance to express themselves in different ways and to make up stories. In order to describe and tell stories, children need an active vocabulary. The development of vocabulary is thus closely related to the ability to describe and tell stories. A practical way of inspiring small children to tell stories is to use story boxes.

'Story boxes', which are story times with visual aids, are a sort of mini-theatre production using dolls or puppets. When a story is presented three-dimensionally, like a small theatre production, the events are acted out by little figures, which the storyteller moves around as he or she tells the story. This makes the story very accessible for young children. The children are presented with physical figures that capture their interest. The 'story box' creates excitement, and the idea that the story lives in the box is fascinating.

To young children repetition is the equivalent of recognition and security. Young children love to hear the same story over and over again. Over time, they learn the meaning of the words, pronunciation and grammar, sentence structure and the story itself. A story that has a clear dramatic structure and contains repetition makes it easier for children to remember and follow the plot.

When children have got used to playing with stories based on story boxes, they are often inspired to create stories of their own. There are many ways of taking this further. For example, you can encourage the children to make up their own stories and tell them in different ways; with a table theatre, glove puppets, stick figures, pictures, or little plays in which the children dress up, and so on. Let the children draw their stories and develop them with you in the 'story tent' to share with their classmates afterwards. You can also film performances in which the children tell their stories, and then show them to their parents.

Defnyddiwch ardal sgwrsio

Diben yr ardal sgwrsio yw cael cornel lle caiff plant y cyfle i chwarae rôl a sgwrsio â'u ffrindiau.

Adnoddau:

- Bwrdd a chadeiriau
- Llyfrau ysgrifennu, pensiliau a ffonau i'r plant sgwrsio â'i gilydd (byddai gwneud hen ffonau diangen yn ddiogel yn ddelfrydol.)
- Cardbord ar gyfer swigod

Ein rôl fel oedolion yw cofnodi sgysiau'r plant ac ail-greu'r trafodaethau hyn ar ffurf swigen fawr, ag enw'r plentyn wedi'i labelu ar y wal er mwyn i bawb ei weld. Mae hyn yn ysgogi ac yn annog plant i sgwrsio yn yr iaith chwarae, yn ogystal â darparu tystiolaeth a chydabyddiaeth o gynnydd y plentyn.

Gallech chwarae gyda'r plant yn yr ardal sgwrsio, gan ddangos iddynt sut y gellir datblygu sefyllfaoedd gan ddefnyddio cysrawen a geirfa, e.e. mae rhywun wedi cael anaf ac mae angen i chi ffonio'r meddyg - pa gystrawennau y dylid eu defnyddio? Pa eirfa sydd ei hangen arnynt? Dysgwch rigwm i'r plant am ffonio'r meddyg, e.e. Pum Mwnci Bach. Cyn hir bydd y plant yn actio'r golygfeydd eu hunain, ond mae'n hanfodol eu bod yn cael cyfarwyddyd a gwybodaeth ieithyddol gan yr ymarferwyr.

Utilise a chat area

The idea of the chat area is to have a corner where children have an opportunity to role play and chat with their friends.

Resources:

- Table and chairs,
- Note pads, pencils and telephones for children to converse with each other (old disused phones made safe are ideal.)
- Cardboard for bubbles

Our role as adults is to document the children's conversations and re-create these discussions in large bubble form, labeled with child's name on the wall for all to see. This action motivates and encourages children to converse in the language of play, as well as providing evidence and recognition of child's progress.

You could play with the children within the chat area, showing them how situations can be developed using sentence patterns and vocabulary, e.g. somebody hurt themselves and you need to phone the doctor – which patterns do they use? What vocabulary do they need? Teach them a rhyme about phoning the doctor e.g. Five Little Monkeys. After a while the children will play out these scenes themselves, but it is essential that they receive direction and knowledge of language from the practitioners.

Y Lindysyn Llwglyd lawn gan Eric Carle

Diben y sesiwn hon yw cyflwyno stori y gall y plant ei chofio. Adroddir y stori drwy ddefnyddio 'blwch straeon', ac ar ôl hynny gall y plant chwarae gemau amrywiol neu barhau i ddatblygu'r stori hon, gyda'r gwrthrychau o'r stori.

Dewiswyd y stori hon, am ei bod yn cynnwys ailadrodd yn y plot ac ailadrodd geiriau neu ymadroddion.

Adnoddau:

- gwrthrychau ar gyfer y stori
- blwch gyda chlwr, sy'n ddigon mawr i ddal yr holl wrthrychau
- cloch neu ryw beth tebyg

Casglwch y gwrthrychau sy'n cynrychioli'r eitemau allweddol yn y stori ac sy'n symud y plot yn ei flaen. Ar gyfer y stori hon byddwch angen lindysyn bach a lindysyn mawr, wy, pili-pala, rhuban, y ffrwythau gwahanol a'r bwyd o'r stori. Rhowch bopeth i mewn i flwch sydd â chaead. Mae'n gyffrous i'r plant pan fyddwch yn agor y caead i ddechrau'r stori. Cyn bod y stori'n dechrau, adroddwch hwiangerdd, canwch gloch fach neu defnyddiwch ryw arwydd arall sy'n dangos bod y stori ar fin dechrau. Yna adroddwch y stori drwy dynnu'r gwrthrychau allan o'r blwch i actio'r stori. Ar y diwedd, gallwch ailadrodd yr hwiangerdd neu ddefnyddio arwydd arall i ddangos bod y stori ar ben.



The Very Hungry Caterpillar by Eric Carle

The purpose of this session is to introduce a story that the children can recall. The story is told using a 'story box', and afterwards the children can play various games or continue to develop this story, with these props.

This story has been chosen, while it includes repetition in the plot and repetition of words or phrases.

Resources:

- props for the story
- a box with a lid, large enough to hold all the props
- a bell or similar item

Gather props that represent the key items in the story and move the plot along. For this story you need a small and a big caterpillar, an egg, a butterfly, a ribbon, the different fruits and the food from the story. Put them all into a box with a lid. Children find it exciting when you open the lid to begin the story. Before the story begins, recite a nursery rhyme, ring a little bell or use some other signal that indicates that the story is about to begin. Then tell the story by taking the props out of the box to act it out. At the end, you can repeat the nursery rhyme or use some other indicator

to show that the story is over.

Adroddwch a disgrifiwch y stori

Adnoddau:

- gwrthrychau ar gyfer y stori uchod
- blwch ar gyfer y gwrthrychau

Rhowch y gwrthrychau a ddefnyddiwyd wrth adrodd y stori i'r plant, neu gadewch i'r plant gymryd tro i ddewis gwrthrych a'i enwi. Gofynnwch gwestiynau am y stori a'r gwrthrychau, fel hyn: "Ble oedd yr wy bach? Ar ba ddiwrnod wnaeth y lindysyn fwyta tair eirinen? Sut oedd y lindysyn yn teimlo ar ôl bwyta'r holl fwyd ar y dydd Sadwrn? Beth yw enw'r tŷ a adeiladodd y lindysyn o'i amgylch? Pan fydd y plant yn ateb, gallwch gadarnhau eu hatebion a chofio ar y cyd â'r plant. Yna gallwch ailadrodd digwyddiadau'r stori sy'n ymwneud â ffigurau'r plant yn gryno.

Gallwch hefyd holi cwestiynau lle gall y plant ddisgrifio'r gwrthrychau. Pa mor fawr.? Pa liw.? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y lindysyn bach a'r lindysyn mawr? Pa liwiau ydych chi'n gallu eu gweld ar adenydd y pili-pala? Disgrifiwch y ddeilen fawr ar ôl i'r lindysyn fwyta darn ohoni. Ar ôl i'r plant ateb eu cwestiynau, gallant roi'r gwrthrychau yn y blwch. Yn olaf, gallwch roi'r clawr yn ôl ar y blwch.

Tell and describe the story

Resources:

- props for the story above
- box for props

Hand out the objects you used when telling the story, or let the children take turns to choose an object and name it. Ask questions about the story and the objects,

like this: "Where was the small egg? Which day did the caterpillar eat three plums? How did the caterpillar feel after eating all the food on Saturday? What is the name of the house that the caterpillar built around himself? When the children answer, you can confirm their responses and remember together with the children. Then you can briefly repeat the sequence of events in the story involving the children's figures.

You may also ask questions where the children can describe the props. How big.? Which colour...? What is the difference between the small and the big caterpillar? Which colours can you find on the butterflies wings? Describe the big leave after the caterpillar have eaten from it. After the children have answered their questions, they can place their props in the box. Finally put the lid back on the box.



Pysgota

Diben y gêm hon yw cael y plant i ddisgrifio'r hyn sy'n debyg rhwng lluniau gwahanol ac i nodi manylion.

Adnoddau:

- gwialen bysgota (ffon, cortyn a magned)
- lluniau o anifeiliaid, bwyd a/neu eitemau cyffredin ac eitemau cyfatebol
- pysgod cardbord o liwiau gwahanol
- clipiau papur

Gwnewch wialen bysgota gan ddefnyddio ffon: gludiwch fagned bach wrth un pen o ddarn o gortyn a chlymwch ben arall y cortyn i ben y ffon. Tynnwch luniau neu defnyddiwch gardiau parod sydd ar gael ar y rhyngwyd. Torrwch siapiau'r pysgod, gludiwch y lluniau arnynt a rhwch glip papur ar bob pysgodyn.

Gwasgarwch y pysgod ar y llawr, gyda'r lluniau'n wynebu ar i lawr. Gadewch i'r plant gymryd tro i 'bysgota' am ddau pysgodyn gyda'ch help chi, a dweud beth sydd wedi'i ddarlunio ar y cerdyn. Yna edrychwch ar y lluniau gyda'r plant, gan ddisgrifio'r lluniau a'u trafod. Yna gofynnwch beth sy'n debyg rhwng y cardiau. Gadewch i'r plentyn a ddaliodd y cardiau ateb yn gyntaf. Yna gall y plant eraill hefyd disgrifio'r hyn sy'n debyg rhwng y cardiau.

Fishing

The idea of this game is to get the children to describe similarities between different pictures and to identify details.

Resources:

- a fishing rod (stick, string and magnet)
- pictures of animals, food and/or everyday objects and corresponding items
- fishes in cardboard in different colours
- paper clips



Make a fishing rod from a stick: glue a small magnet onto one end of a length of string and fasten the other end of the string onto the end of the stick. Paint pictures or use ready-made cards, (these can be found on the web). Cut the fish, glue the pictures on them and attach a paper clip on each fish.

Spread out the fish on the floor, with the picture sides facing down. Have the children take turns to 'fish' for two fish with your help and name the picture. Then look at the pictures together with the children, describe the pictures and discuss them. Then ask what is similar between the cards. Let the child who retrieved the cards

answer first. Following this, other children can also describe the similarities between the cards.

Arth sy'n ymweld â'r cartref

Diben y gêm hon yw cydweithredu â'r rhieni a chael y plant i ddefnyddio'r iaith darged y tu allan i'r lleoliad gofal dydd.

Adnoddau:

- tedi
- camera
- bag neu gês
- llyfr ysgrifennu

Dewiswch dedi sy'n hoffi casglu lluniau, ffotograffau a hwiangerddi yn yr iaith darged. Bydd y plant yn cymryd tro i fynd â'r tedi a'r camera adref gyda hwy mewn bag neu gês. Gellid cynnwys y ffotograffau mewn llyfr ysgrifennu ynghyd ag enw'r plentyn. Mae plant wrth eu bodd yn gweld eu hunain mewn ffotograffau! Gallai'r adnodd hwn fod yn dasg ardderchog sy'n canolbwyntio ar iaith.

A teddy bear who visits the home

The idea of this game is to cooperate with the parents and get the children to use the target language outside the daycare setting.

Resources:

- a teddy bear
- a camera
- a bag or a suitcase
- a notebook

Choose a teddy bear who likes to collect pictures, photographs and nursery rhymes in the target language. The children take it in turns to take the teddy bear and a camera home with them in a bag or a suitcase. The photographs could be included in a notebook along with the child's name. Children love to see photographs of themselves! This resource could be an excellent language focused task.

Bagiau llyfrau

Diben y gêm hon yw cydweithredu â'r rhieni, a helpu'r teuluoedd i gael gafael ar lyfrau a'u darllen yn yr iaith darged.

Adnoddau:

- llyfrau wrth gefn
- bagiau
- un llyfr ysgrifennu fesul bag

Os oes gan eich lleoliad lyfrau dros ben, gallwch greu bagiau llyfrau er mwyn i rieni gael eu benthg am gyfnod. Rhwch rai o'r llyfrau i mewn i bob bag, ynghyd â llyfr ysgrifennu. Gall y plant dynnu lluniau yn y llyfrau cofnodion a sôn am yr hyn y maent wedi'i ddarllen, a gall y rhieni nodi rhai sylwadau am y llyfrau a'u sesiynau darllen. Mae bagiau llyfrau yn ei gwneud yn hawdd i rieni gael gafael ar lyfrau addas i'w darllen gyda'u plant. Wrth annog rhieni i gael benthg bag llyfrau, mae'n ffordd hawdd o greu cyfle i siarad â hwy am lyfrau, am ddarllen ar lafar i'w plentyn, am arferion darllen yn y cartref a themâu eraill sy'n ymwneud ag iaith ac ysgogi iaith.



Book bags

The idea of this game is to cooperate with the parents, and help the families to get hold of books and read them in the target language.

Resources:

- spare books
- some bags
- a notebook per bag

If your setting has spare books, you can make up book bags for parents to borrow for a period of time. Put a few books into each book bag, along with a notebook. The children can draw in the notebooks and tell about what they have read, and the parents can write some comments about the books and their reading sessions. Book bags make it easy for parents to get hold of suitable books to read together with their children. When you encourage parents to borrow a book bag, it's an easy way to create an opportunity to chat with them about books, reading out loud to their child, reading habits at home and other themes related to language and language stimulation.

Cyfeiriadau:

- Baker, C. 2000. A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism.
2nd Edition Multilingual Matters: Clevedon
- Baker, C. 2007. Foundations of Bilingual Education and Bilingualism.
Clevedon: Multilingual Matters
- Ekström, S. 2004. Läs och berätta. Stockholm: En bok för alla
- Doverborg, E & Samuelsson, I. (1995). Mångfaldens pedagogiska möjligheter.
Ett sätt att utveckla barns förmåga att förstå sin omvärld. Stockholm: Liber.
- Gammelgård, L. 2006. Språkstrategi för dagvården. Helsingfors:
Svenska kulturfonden
- Granberg, A. 2002. Småbarns sagostund. Stockholm: Liber
- Hagtvet, B. E. 2004. Språkstimulering. Del 1: Tal och skrift i förskoleåldern.
Stockholm: Natur och kultur.
- Mickos, A. & Metsämäki, J. 2005 Språkfrön. Helsingfors: Folkhälsan
- Nettelbladt, U. Lexikala problem hos barn med språkstörning. I: Nettelbladt,
U. & Salameh, E. (red.) 2007. Språkutveckling och språkstörning hos barn:
231–253. Lund: Studentlitteratur.
- Melin, L. 2004. Språkpsykologi: Hur vi talar, lyssnar, läser, skriver och minns.
Stockholm: Liber.
- Pramling Samuelsson, I. & Asplund Carlsson, M. 2003. Det lekande lärande barnet
i en utvecklingspedagogisk teori. Stockholm: Liber
- Pramling Samuelsson, I. & Mårdsjö, A.-C. 2007. Grundläggande färdigheter –
och färdigheters grundläggande. Lund: Studentlitteratur.
- Rydja, C. 2006. Språklust i förskola och förskoleklass. Stockholm: Bonniers
- Svensson, A.-K. 1998. Barnet, språket och miljön. Lund: Studentlitteratur.
- Taube, K. 2007. Barns tidiga läsning. Stockholm: Norstedts Akademiska Förlag.

References:

- Baker, C. 2000. A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism.
2nd Edition Multilingual Matters: Clevedon
- Baker, C. 2007. Foundations of Bilingual Education and Bilingualism.
Clevedon: Multilingual Matters
- Ekström, S. 2004. Läs och berätta. Stockholm: En bok för alla
- Doverborg, E & Samuelsson, I. (1995). Mångfaldens pedagogiska möjligheter.
Ett sätt att utveckla barns förmåga att förstå sin omvärld. Stockholm: Liber.
- Gammelgård, L. 2006. Språkstrategi för dagvården. Helsingfors:
Svenska kulturfonden
- Granberg, A. 2002. Småbarns sagostund. Stockholm: Liber
- Hagtvet, B. E. 2004. Språkstimulering. Del 1: Tal och skrift i förskoleåldern.
Stockholm: Natur och kultur.
- Mickos, A. & Metsämäki, J. 2005 Språkfrön. Helsingfors: Folkhälsan
- Nettelbladt, U. Lexikala problem hos barn med språkstörning. I: Nettelbladt,
U. & Salameh, E. (red.) 2007. Språkutveckling och språkstörning hos barn:
231–253. Lund: Studentlitteratur.
- Melin, L. 2004. Språkpsykologi: Hur vi talar, lyssnar, läser, skriver och minns.
Stockholm: Liber.
- Pramling Samuelsson, I. & Asplund Carlsson, M. 2003. Det lekande lärande barnet
i en utvecklingspedagogisk teori. Stockholm: Liber
- Pramling Samuelsson, I. & Mårdsjö, A.-C. 2007. Grundläggande färdigheter –
och färdigheters grundläggande. Lund: Studentlitteratur.
- Rydja, C. 2006. Språklust i förskola och förskoleklass. Stockholm: Bonniers
- Svensson, A.-K. 1998. Barnet, språket och miljön. Lund: Studentlitteratur.
- Taube, K. 2007. Barns tidiga läsning. Stockholm: Norstedts Akademiska Förlag.

Awgrymiadau ar gyfer darllen pellach – Suggestions for further reading:

- Andersson, S., Cunningham-Andersson, U. 2004. *Growing Up with Two Languages: A Practical Guide*, Routledge, New York
- Ar Bihan, H. 2005. *Yezh ar vugale, le Breton des enfants et des tout-petits*, Editions An Alarc'h,
- Baker, C. 2000. *A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism*. 2nd Edition *Multilingual Matters: Clevedon*
- Baker, C. 2007. *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. Clevedon: *Multilingual Matters*
- Baker, C. 2010. Increasing Bilingualism in Bilingual Education. In D. Morris (Ed.), *Welsh in the 21st Century*. Cardiff: University of Wales Press (61-79).
- Bjar, L. & Liberg, C. (red.). 2003. *Barn utvecklar sitt språk*. Lund: Studentlitteratur.
- de Boysson-Bardies, B. 2010. *Comment la parole vient aux enfants*, Editions Odile Jacob
- de Boysson-Bardies, B. 2001. *How Language Comes to Children: From Birth to Two Years*
- Caldas, S. 2006, *Raising Bilingual-Biliterate Children in Monolingual Cultures*, *Multilingual Matters*
- Coll, T. 2009. *The death of language?*
<http://news.bbc.co.uk/1/hi/8110000/811069.stm>
- Cummins, J. 2001. *La langue maternelle de enfants bilingues, Qu'est-ce qui est important dans leurs études?*, *Sprogforum* n° 19
- Dalgalian, G. 2000. *Enfances plurilingues, Témoignage pour une éducation bilingue et plurilingue*, Editions L'Harmattan
- David, M., et al. 2009. *Accueillir*, Editions Erès
- Denis, P. 2007. *Jeux de bébés*, Collection Erès
- Deunk, M. 2009 *Discourse practices in preschool : young children's participation in everyday classroom activities*, University of Groningen
- Ellis, R. 1994. *The Study of Second Language Acquisition*, Oxford University Press
- Ellneby, Y. & Hilgers von, B. 2010. *Att samtala med barn – genom att lyssna med fyra öron*. Stockholm: Natur & Kultur
- Eriksen Hagtvet, B. 2004. *Språkstimulering. Del 1: Tal och skrift i förskoleåldern*. Stockholm: Natur & Kultur.
- Eriksen Hagtvet, B. 2006. *Språkstimulering. Del 2: Aktiviteter och åtgärder i förskoleåldern*. Stockholm: Natur & Kultur.
- Fontaine, A-M. 2008. *Observer en équipe dans les lieux d'accueil de la petite enfance, Développer l'observation-projet'*
- Gammelgård L., 2006. *Språkstrategier i dagvården* also available in English *Language strategy for day care centre*, Helsingfors: Svenska kulturfonden.
- Hagège, C. 1996. *L'enfant aux deux langues* Editions Odile Jacob
- Kail, M., Fayol, M. 2000 *L'acquisition du langage : le langage en émergence De la naissance à trois ans*, Editions Puf
- Kerrain, M. 2010. *Je parle breton à mon enfant, Komz Brezhoneg a ran ouzh ma bugel*, Editions Sav Heol
- de Ofelia, G. 2008. *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective*
- Petit, J., Dolto, C. 2011. "La sécurité affective acquise avant la naissance est un bagage précieux pour toute la vie"
http://www.lemonde.fr/weekend/article/2011/03/11/la-securite-affective-acquise-avant-la-naissance-est-un-bagage-precieux-pour-toute-la-vie_1491932_1477893.html
- Pinelli, A. 2008. *Porter le bébé vers son autonomie*, Editions Erès, 2008
- Poulain-Dubois, D., Blaye, A., Coutya J., Bialystok, E. 2010. The effects of bilingualism on toddlers' executive functioning, *Journal of Experimental Child Psychology*
- van Thiesen, K & Baggio R. (eds.) 2009. *Hola! Une approche holistique de l'apprentissage des langues*
- Pramling Samuelsson, I. 2010. *Play and Learning in Early Childhood Settings*. Springer.
- Sandvik, M. & Spurkland, M. 2011. *Språkstimulera och dokumentera i den flerspråkiga förskolan*. Lund: Studentlitteratur.
- Sommer, D., Pramling Samuelsson, I., Hundeide, K. 2010 *Child Perspectives and Children's Perspectives in Theory and Practice*. Springer.

Gwefannau a Dolenni defnyddiol:

Gwefan swyddogol y Prosiect MELT:

www.meltproject.eu *

Gwefan Mudiad Meithrin (sef sefydliad gwirfoddol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar):

<http://www.mym.co.uk/index.cfm?alias=general>*

Gwefan TWF (Cymraeg o'r Crud)

<http://www.twfcymru.com/Cymraeg/Tudalennau/cartref.aspx>*

8 Rheswm da dros gyflwyno Cymraeg o'r crud

<http://www.twfcymru.com/Cymraeg/dwyieithrwydd/Tudalennau/8RheswmDa.aspx>*

Gwefan CYW

<http://cyw.s4c.co.uk/cy>

Gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg a thudalennau perthnasol:

<http://www.byig-wlb.org.uk/Pages/Hafan.aspx>*

<http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/dysgu/Pages/CyflwynorGymraeg.aspx> *

<http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/dysgu/Pages/rhieni.aspx> *

Addysg Drochi – [www.byig-](http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4945.doc)

[wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4945.doc](http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4945.doc)

A ddylai fy mhlentyn fynd i ysgol ddwyieithog? – <http://www.byigwlb.org.uk/cymraeg/cwestiynau/pages/addylaifymhlyntynfyndiysgolddwyieithog.aspx>

Gwefan y Fryske Akademy:

http://argyf.fryske-akademy.eu/fa/index-en/view?set_language=en

* Yn Saesneg neu ar gael yn Saesneg

Websites and Useful Links:

Official website of MELT Project:

www.meltproject.eu *

Website of Mudiad Meithrin (Welsh voluntary organisation promoting the Welsh language in early years settings):

<http://www.mym.co.uk/index.cfm?alias=general>

TWF Website (2 languages from Day 1)

<http://www.twfcymru.com/English/Pages/home.aspx>

8 good reasons to introduce Welsh from birth

<http://www.twfcymru.com/English/bilingualism/Pages/8GoodReasons.aspx>

CYW Website

<http://cyw.s4c.co.uk/en>

Welsh Language Board website and relevant pages:

<http://www.byig-wlb.org.uk/Pages/Hafan.aspx>

<http://www.byig-wlb.org.uk/English/learning/Pages/CyflwynorGymraeg.aspx> *

<http://www.byig-wlb.org.uk/English/learning/Pages/parents.aspx> *

Immersion Education – [www.byig-](http://www.byig-wlb.org.uk/English/publications/Publications/4946.doc)

[wlb.org.uk/English/publications/Publications/4946.doc](http://www.byig-wlb.org.uk/English/publications/Publications/4946.doc)

Should my child go to a bilingual school? – [http://www.byig-](http://www.byig-wlb.org.uk/English/faq/Pages/Shouldmychildgotoabilingualschool.aspx)

[wlb.org.uk/English/faq/Pages/Shouldmychildgotoabilingualschool.aspx](http://www.byig-wlb.org.uk/English/faq/Pages/Shouldmychildgotoabilingualschool.aspx)

Fryske Akademy website:

http://argyf.fryske-akademy.eu/fa/index-en/view?set_language=en

* In English or can be found in English

Gwefan Folkhalsan:

<http://www.folkhalsan.fi/sv/startsidea/>

Gwefan Divskouarn

<http://divskouarn.free.fr>

Cyhoeddiadau Colin Baker – Ymchwil –

<http://www.bangor.ac.uk/addysg/Staffpages/CBaker.php.en>

<http://www.bilingualforfun.com/2009/06/22/how-reading-dvds-and-even-videogames-can-become-an-opportunity-for-language-stimulation/> *

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen i blant. Mae darllen yn allweddol ar gyfer datblygiad ieithyddol, ond hefyd ar gyfer datblygiad personol plant, ar gyfer meithrin y gallu i ddeall yr hunan a'r byd ac i ymhelaethu ar brofiadau. Afraid dweud fod darllen hefyd yn hanfodol er mwyn ysgogi iaith plant dwyieithog. Fodd bynnag, gellir atgyfnerthu'r cyswllt rhwng darllen iaith drwy gysylltu darllen â gweithgareddau sy'n ysgogi iaith.

Folkhalsan website:

<http://www.folkhalsan.fi/sv/startsidea/>

Divskouarn website

<http://divskouarn.free.fr>

Publications of Colin Baker – Research –

<http://www.bangor.ac.uk/addysg/Staffpages/CBaker.php.en>

<http://www.bilingualforfun.com/2009/06/22/how-reading-dvds-and-even-videogames-can-become-an-opportunity-for-language-stimulation/> *

The importance of reading to children cannot be overestimated. Reading is critical for language development, but also for children's personal development, for acquiring the ability to understand oneself and the world and to elaborate experiences. It goes without saying that for bilingual children reading is also essential to stimulate language. However the link between reading a language can be made stronger by associating reading with language stimulating activities.